Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent



Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

# Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg

Cyfnod y Cynllun hwn:
Medi 2022 – Medi 2032

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

# CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

| |
|---|
| **Enw'r Awdurdod Lleol** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** |
| **Cyfnod y Cynllun hwn** |
| **Medi 2022 – Medi 2032** |

DRAFT

**Gwnaed y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn dan Adran 84 *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio gyda *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*[1-2]. Yr ydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth osod ein targedau.**

**Llofnod:** ........................................ **Dyddiad**: ....................

(Dylai'r Cynllun hwn gael ei lofnodi gan Brif Swyddog Gweithredol eich awdurdod lleol)

[1] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
[2] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Diwygiad) (Coronafeirws) 2020

## Cynllun 10-mlynedd Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent 2022 - 2032

**Rhagair**

**Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg**

Mae Blaenau Gwent yn ardal awdurdod lleol cymharol fach, ond un sydd ag uchelgais fawr ar gyfer ein hysgolion a'n dysgwyr. Rydym yn benderfynol i chwarae ein rhan i sicrhau fod Cymru yn genedl ddwyieithog gydag uchelgais glir i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol. Rydym yn llwyr gefnogi ac ymroddedig i Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg, strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Bu addysg Gymraeg yn tyfu yn y Fwrdeistref Sirol mewn blynyddoedd diweddar. Bu gan y twf hwn ran allweddol wrth gynyddu'r nifer o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn gyson yn ein Bwrdeistref Sirol. Nod strategol Blaenau Gwent a gaiff ei hyrwyddo yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yw sicrhau:

'Cymuned Blaenau Gwent sy'n cofleidio'r Gymraeg a'i diwylliant yn hyderus a gyda balchder'.

Un o'r elfennau allweddol wrth sicrhau y caiff ein nod strategol ar gyfer y Gymraeg ei chyflawni'n llwyddiannus yw gwireddu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd ac uchelgeisiol ar gyfer 2022-32. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'n holl bartneriaid yng ngwir ysbryd cydweithredu i gyflawni blaenoriaethau a dyheadau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg dros y blynyddoedd i ddod.

**Lynn Phillips**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

**Aelod Gweithredol dros Addysg**

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i Gyngor Blaenau Gwent. Rydym yn ymroddedig ac mae gennym gyfle i hybu ein system addysg ymhellach ac mewn sefyllfa gref i hwyluso twf a datblygiad parhaus y Gymraeg ac addysg, wrth weithio tuag at Cymraeg 2050. Mae gennym weledigaeth a nodau clir sy'n uchelgeisiol ac a fydd yn sicrhau'r safonau darpariaeth y mae ein dysgwyr a theuluoedd yn eu haeddu. Mae gennym hefyd bartneriaeth gref iawn yn y Fforwm Addysg Gymraeg, ynghyd ag awdurdodau cyfagos. Gan gydweithio, gallwn a byddwn yn adeiladu ar lwyddiannau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent 2017-20.

**Cynghorydd Joanne Collins**
**Aelod Gweithredol dros Addysg**

DRAFT

**Trosolwg o'r Ymgynghoriad**
Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi datblygu drafft Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sydd i redeg am gyfnod o 10-mlynedd o fis Medi 2022 tan fis Medi 2032. Mae'r cynllun dilynol yn cynnwys trosolwg o lle'r ydym arni yn awr, lle bwriadwn fod mewn 5 mlynedd a lle bwriadwn fod erbyn 2032, ynghyd â sut y bwriadwn gyrraedd yno.

Byddwn yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau fod ein cynllun yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu anghenion ein teuluoedd, staff a phartneriaid.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi roi eich barn a'ch sylwadau ar y drafft Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Caiff pob ymateb eu hystyried ynghyd â'r goblygiadau cysylltiedig – yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r cynllun sy'n dilyn o'r ymgynghoriad. Byddwn wedyn yn mynd ati i gynhyrchu fersiwn terfynol i'w gymeradwyo gan Bwyllgor Gweithredol y Cyngor, cyn ei gyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru ar gyfer eu hystyriaeth a'u cymeradwyaeth. Unwaith y'i cytunwyd, daw'r cynllun i rym o fis Medi 2022.

**Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ddydd Gwener 5 Tachwedd 2021, gan ddod i ben ddydd Llun 3 Ionawr 2022 am 12pm.**

**Cefndir a Chyd-destun**
Mae Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Diben y Cynllun hwn yw gosod dull gweithredu a chyfeiriad strategol y Cyngor, yng nghyswllt datblygu a chyflwyno addysg Gymraeg. Datblygwyd y cynllun dilynol yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd dan adran 87 (5) *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013.*

**Datblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent**
Cafodd datblygiad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Blaenau Gwent ei gydlynu gan y Gyfarwyddiaeth Addysg, gan weithio mewn partneriaeth gyda Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent, ynghyd â phartneriaid eraill perthnasol. Diben hyn fu canfod y sefyllfa bresennol, tra hefyd yn llywio cynlluniau a thargedau am y 10 mlynedd nesaf. Mae'r cynllun yn rhoi manylion y dull gweithredu strategol lleol, ynghyd â dyheadau'r Cyngor am addysg Gymraeg rhwng 2022 a 2032.

Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda chydweithwyr yn gyfrifol am eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg mewn awdurdodau cyfagos, yn cynnwys: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Anelwn barhau i gysylltu a gweithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos, i sicrhau ein bod fel Cynghorau yn cydweithio er mwyn parhau i ymwreiddio a chryfhau ein dull gweithredu at gyflwyno addysg Gymraeg ledled y rhanbarth.

**Cyd-destun Strategol**
**Cenedlaethol**
Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn hollol gydnaws â strategaethau a pholisïau dilynol Llywodraeth Cymru a bydd yn hwyluso eu cyflawni yn effeithlon:

Mae **Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg (2017)**, yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn anelu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 filiwn erbyn 2050, a hefyd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol, yn cynnwys seilwaith a chyd-destun, i gefnogi'r twf hwn. Bydd gan y sector Addysg rôl hollbwysig wrth hwyluso Cymraeg 2050, drwy broses gynllunio strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n anelu i gynyddu nifer y dysgwyr sydd â'r cyfle i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg yn yr ysgol a hefyd fel rhan o'u bywyd bob dydd. Yn ychwanegol, bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg pob Cyngor yn cyfrannu at newid y ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu, yn ei dro yn anelu i gynyddu gwella caffael a defnydd iaith, a thrwy weithio gyda phartneriaid allweddol i gynyddu'r gweithlu addysgu, yn nhermau'r rhai a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ynghyd â'r rhai sy'n addysgu'r Gymraeg fel pwnc.

Bydd pob Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hefyd yn cyfrannu at weithredu **Cynllun Gweithredu 2017-21 Cymraeg mewn Addysg** sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer addysg Gymraeg.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn rhoi manylion saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio atynt yn cynnwys *'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.* Bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent, drwy ei weledigaeth, nodau a thargedau, yn anelu i hwyluso datblygiadau yn y Gymraeg a datblygiadau diwylliannol yn unol â'r nod hon, ac yn ei dro wella llesiant disgyblion, staff a chymunedau.

**Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol a rhaglen lywodraethu Symud Cymru Ymlaen 2016-2021** sydd ag un o'r nodau llesiant o *'Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth'.* Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn anelu i greu system addysg Gymraeg addas a chynaliadwy i gefnogi gweithredu'r nod hon mewn ffordd effeithlon.

**Mae Addysg yng Nghymru:** ***Cenhadaeth ein Cenedl, Cynllun Gweithredu (2017-21)*** yn rhoi manylion cynlluniau ar gyfer y system addysg yng Nghymru, i sicrhau y caiff y cwricwlwm newydd ei weithredu'n effeithlon. Mae hyn yn cynnwys dymuniad i ddysgwyr ddod yn gynyddol ddwyieithog, hybu a gweld twf mewn addysg Gymraeg, ynghyd â defnydd o'r Gymraeg gan y gweithlu a datblygu sgiliau, tra hefyd yn cyfrannu at recriwtio a chadw staff yn effeithlon. Mae cysylltiad annatod rhwng agweddau allweddol y cynllun gweithredu hwn sy'n ymwneud â dwyieithrwydd â phob un o'r 7 o'r meysydd deilliant o fewn Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent. Mae'r Cynllun hwn yn anelu i:

- Wella a chynyddu mynediad i a'r galw am addysg Gymraeg
- Sicrhau safonau uchel yn nhermau safonau a darpariaeth addysg
- Datblygu a chreu cyfleoedd ar defnydd anffurfiol yn ogystal â ffurfiol o'r Gymraeg
- Sicrhau datblygu a chynaliadwyedd y gweithlu

**Lleol**

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn hollol gydnaws gyda gweledigaeth y Cyngor ar gyfer addysg, sef:

***"Sicrhau cyflawniad a llesiant rhagorol drwy system partneriaeth, dan arweiniad ysgolion, hunan-wella ysgol i ysgol"***

DRAFT

Mae'r Cynllun yn allweddol i sicrhau y caiff y weledigaeth ar gyfer addysg ei chyflawni'n llwyddiannus, gan ei fod yn sefydlu fframwaith ar gyfer cyflawni'r dyheadau hyn, mewn partneriaeth gyda'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg ac ysgolion lleol.

Mae addysg yn allweddol i gyflawni'r weledigaeth a'r deilliannau a sefydlwyd o fewn Cynllun Corfforaethol Cyngor Blaenau Gwent 2020/22 yn cynnwys: 'Treftadaeth falch, cymunedau cryf a dyfodol disgleiriach'. Mae mynediad i addysg Gymraeg ansawdd uchel, datblygu'r iaith, diwylliant, darpariaeth a gweithlu i gyd yn rhan hanfodol o'r Cynllun hwn.

Mae addysg hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at Gynllun Llesiant 2018-23 Blaenau Gwent, a chyflawni'r amcanion cysylltiedig. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg wrth weithio at y nodau llesiant.

Bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent yn llywio'r prosesau adolygu a datblygu sy'n gysylltiedig gyda Strategaeth Blaenau Gwent ar Hyrwyddo'r Gymraeg, yr ymgynghorir arni a'i chyhoeddi cyn mis Mawrth 2022.
.

## Ein gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio darpariaeth addysg Gymraeg yn ein hardal

**Gweledigaeth Cyngor Blaenau Gwent ar gyfer Addysg Gymraeg:**

**'***Adeiladu ar y cynnydd cryf a wnaed hyd yma drwy greu system addysg gynaliadwy sy'n cynyddu'r ddarpariaeth, y galw a'r defnydd o'r Gymraeg; creu dinasyddion medrus ac wedi eu grymuso sy'n falch i fyw a gweithio o fewn a hefyd tu allan i Gymru'.*

**Nod strategol hynny fydd creu:**
*Cymuned sy'n cofleidio'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn hyderus a gyda balchder.*

Byddwn yn anelu i gyflawni ein gweledigaeth drwy hyrwyddo, datblygu a chyfoethogi darpariaeth a gwasanaethau Cymraeg. Gwnawn hynny drwy gydweithio'n agos gyda'r Fforwm Addysg Gymraeg, ynghyd â phartneriaid strategol allweddol eraill yn cynnwys Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill.

**Mae ein hamcanion yn cynnwys:**
- Codi proffil addysg Gymraeg ynghyd â manteision bod yn ddwyieithog.
- Creu sefydliadau dysgu ansawdd uchel ffyniannus sy'n cefnogi ymgysylltu effeithlon rhwng disgyblion, staff, y gymuned a phartneriaid.
- Cefnogi integreiddio gwasanaethau a chreu profiad cynnwys trochi ar gyfer dysgwyr.
- Sicrhau gwella gwaith rhwng ysgolion a phartneriaeth, gan hwyluso defnydd a datblygiad ehangach o'r Gymraeg.
- Creu gweithlu medrus a chynaliadwy, sy'n ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

- Sicrhau amgylcheddau addysgu a dysgu cynhwysol a chyfleoedd i bob dysgwr.
- Gwella cyfleoedd dilyniant drwy adolygu a gweithredu cwricwlwm sydd wedi ei alinio'n gadarn i addysg bellach ac addysg uwch.

**Mae cyflawniadau allweddol yn ystod Cynllun 2017-20 yn cynnwys:**

- Mae nifer y disgyblion ar y gofrestr, ynghyd â'r rhai sy'n gwneud cais am le yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn parhau i gynyddu, gyda thueddiad cadarnhaol dros y 3 blynedd ddiwethaf yng nghyswllt niferoedd meithrin a dosbarth derbyn. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion meithrin sy'n mynd i Ysgol Gymraeg Bro Helyg, er mwyn cefnogi gwell mynediad i addysg Gymraeg.
- Mae safonau wedi gwella yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg, a chafodd hynny ddylanwad cadarnhaol ar y galw a'r ddarpariaeth.
- Mae cyfraddau pontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg yn parhau'n uchel gyda 100% o ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Gwynllyw.
- Sicrhaodd Cyngor Blaenau Gwent gyllid cyfalaf drwy Raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif i ailfodelu amgylcheddau addysgu mewnol ac allanol yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg, gan yn ei dro wella darpariaeth.
- Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi datblygu cynllun marchnata a chyfathrebu cryf, sy'n targedu ac yn hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog, gan gydweithio gyda phartneriaid ledled y rhanbarth i wneud hynny; tra hefyd yn sefydlu dulliau effeithlon o ymgysylltu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid, er mwyn llywio blaenoriaethau strategol allweddol.
- Mae Blaenau Gwent wedi bod yn llwyddiannus wrth gydlynu is-grŵp Consortia De Ddwyrain Cymru (SEWC) ar gynllunio lleoedd a galw rhanbarthol dros y 2 flynedd ddiwethaf. Mae hyn wedi arwain at weithio partneriaeth effeithlon a chydlynu rhwng awdurdodau cyfagos, sy'n parhau i ddysgu gan ei gilydd tra'n ymchwilio cyfleoedd ar gyfer datblygiadau rhanbarthol o fudd i bawb.
- Mae cynrychiolaeth, presenoldeb ac amlder cyfarfodydd y Fforwm Addysg Gymraeg wedi cynyddu, gyda phartneriaid wedi ymrwymo'n gadarn i effeithlonrwydd Fforwm Blaenau Gwent a gan gydnabod hynny.
- Sicrhaodd y Cyngor gyllid o Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu Ysgol Gynradd Gymraeg egin newydd gyda 210 lle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi, lle bwriedir gweithredu drwy fodel twf egin o hydref 2023. Yn ychwanegol, mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid drwy'r Grant Cyfalaf Gofal Plant i ddarparu dau safle gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol, gan gefnogi twf darpariaeth gynradd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu targedau ar gyfer cynghorau er mwyn cyflawni eu gweledigaeth ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r targedau yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgybl (CYBLD), yn gysylltiedig â'r ganran o gohort Blwyddyn 1 a gaiff eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth, mae angen i Blaenau Gwent sicrhau fod **o leiaf 10%** o'r cohort Blwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2032.

**Ffigur 1: Data Llinell Sylfaen/Sefyllfa Bresennol**

| CYBLD (2019/20) | Cohort Blwyddyn 1 | Llinell Sylfaen Cyfrwng Cymraeg Blwyddyn 1 2021 |
|---|---|---|
| Nifer disgyblion Blwyddyn 1 | 728 | 29 (4%) |

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth ac amcanion a nodir uchod, mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i weithio tuag at darged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru, i gynyddu cohort Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg i 75 o ddisgyblion. O gymharu gyda data llinell sylfaen 2019/20 a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, byddai hyn yn gyfartal â 10% (cynnydd o 6 pwynt canran) yng nghyfanswm y cohort Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2032.

Cyflawnir hyn drwy:

- Cryfhau'r Fforwm Addysg Gymraeg, i adeiladu ar bartneriaethau presennol a datblygu strwythur atebolrwydd cryf yn unol â gweithredu a monitro'r cynllun 10-mlynedd.
- Datblygu Polisi Addysg Gymraeg Blaenau Gwent, i sefydlu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a datblygiadau cysylltiedig o fewn cynllunio ac ymarfer addysg ehangach.
- Datblygu Strategaeth Hyrwyddo ac Ymgysylltu a chynllun cyfathrebu cysylltiedig i sicrhau y caiff negeseuon clir a chyson eu cyflwyno ledled y Cyngor a'i wasanaethau, yn unol â gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd y strategaeth hefyd yn mynd ati i wella dulliau ymgysylltu.
- Datblygu strategaeth hyrwyddo ac ymgysylltu effeithlon, sy'n rhoi sylw i fanteision bod yn ddwyieithog, chwalu chwedlau a chreu cyfleoedd ar gyfer cynyddu cyfranogiad.
- Cynyddu'r capasiti o fewn y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar presennol (sector cyfrwng Cymraeg, ynghyd â nifer darparwyr gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar) gan o leiaf 2 leoliad, er mwyn bwydo darpariaeth feithrin mewn ysgolion a darpariaeth addysg statudol cyfrwng Cymraeg.
- Cynyddu capasiti a hefyd y galw am leoedd disgyblion ymhellach yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg.
- Hyrwyddo, agor a chyflawni capasiti arfaethedig ail ysgol gynradd Gymraeg y Cyngor.
- Datblygu darpariaeth trochi ar gyfer hwyrddyfodiaid, er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cymryd rhan mewn addysg Gymraeg o fewn y cyfnod cynradd.
- Ymrwymo i gynllun datblygu gweithlu mewn partneriaeth gyda EAS, a Choleg Gwent, ynghyd â phartneriaid allweddol eraill.
- Cynnal astudiaeth dichonolrwydd yn unol â datblygu Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig cyfrwng Cymraeg.
- Gweithio gydag awdurdodau cyfagos i sicrhau ail ysgol uwchradd yn ardal Blaenau'r Cymoedd ar gyfer disgyblion Blaenau Gwent; a,
- Chynnal astudiaeth ddichonoldeb yn unol â'r potensial ar gyfer cynyddu capasiti o fewn y sector cynradd rhwng 2027 a 2032, yn defnyddio'r model twf egin a fabwysiadwyd gan Flaenau Gwent.

DRAFT

Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae addysg yn rhanddeiliad allweddol yn yr adolygiad hwn, a gaiff ei lywio gan y Cynllun Addysg Cymraeg mewn Ysgolion a hefyd astudiaethau dichonoldeb cysylltiedig, a gynhelir er mwyn sicrhau ychwanegedd priodol. Hefyd, fel rhan o Oblygiadau Cynllunio Addysg, byddwn yn anelu i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i dwf poblogaeth o safbwynt addysg.

Mae gweithredu strategaeth effeithlon ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn allweddol i lwyddiant y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac mae hynny'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Fenter Iaith er mwyn sefydlu sesiynau ymgynghori dechreuol yn unol â'r adolygiad hwn. Mae dau ddigwyddiad ymgynghori ar y gweill ar hyn o bryd, un ym mis Tachwedd 2021 a'r llall ddechrau 2022. Nod y digwyddiadau hyn fydd ymgysylltu rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys Addysg, y Fforwm Addysg Gymraeg a grwpiau cymunedol lleol wrth ddatblygu'r strategaeth. Y bwriad yw cadw'r grwpiau hyn i oruchwylio a llywio gweithredu. Bydd y strategaeth newydd yn ei lle erbyn 31 Mawrth 2022.

Mae Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg bresennol Blaenau Gwent yn rhedeg tan 2022 (mae mwy o wybodaeth ar gael yn:
Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017-2022.pdf (blaenau-gwent.gov.uk)).

Mae nodau'r strategaeth bresennol yn cynnwys:

- Gwella'r gwasanaethau Cymraeg y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau penodol.
- Cynyddu'r defnydd a wnaiff pobl o wasanaethau Cymraeg.
- Ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg.
- Sicrhau fod cysondeb priodol o ran y dyletswyddau a roddir ar gyrff yn yr un sectorau.

Yn ychwanegol mae Cyngor Blaenau Gwent yn dynodi'r tair amcan ddilynol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg:

1. Hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd a'r gymuned.
2. Cynyddu darpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg.
3. Cynyddu'r cyfleoedd i bobl o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn cynnwys:
    - Ennyn diddordeb mwy o bobl yn y Gymraeg;
    - Mwy o bobl yn dod yn rhugl yn y Gymraeg; a
    - Mwy o weithwyr y Cyngor yn medru defnyddio'r Gymraeg.

Targed presennol Blaenau Gwent yw sicrhau 70 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol bob blwyddyn (3% o tua 2,400), er mwyn cyflawni'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd gweithredu'r Cynllun Strategol ar y Gymraeg mewn Addysg yn effeithlon yn allweddol wrth sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni eu targed.

DRAFT

# Deilliant 1:

## Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ble'r ydym arni yn awr?**

Dim ond un ysgol gynradd Gymraeg, Ysgol Gymraeg Bro Helyg, sydd gan Blaenau Gwent ar hyn o bryd sy'n cynnig lleoedd meithrin llawn-amser. Gosodwyd y capasiti meithrin ar 60 lle am y 4 blynedd ddiwethaf.

**Darpariaeth Feithrin a Gynhelir**
Mae Ffigur 2 isod yn dangos nifer a canran yr ysgolion meithrin cyfrwng Cymraeg yng nghyswllt cyfanswm y cohort meithrin. Mae'r data dilynol yn seiliedig ar ddata CYBLD:

**Ffigur 2: Argaeledd Lleoedd Meithrin Cyfrwng Cymraeg Tueddiadau 5-mlynedd**

| | 2017 | | 2018 | | 2019 | | 2020 | | 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cohort plant 3 oed** | 732 | | 769 | | 729 | | 696 | | 683 | |
| **Nifer derbyn / ac fel % o'r cyfanswm cohort oedran meithrin** | 41 | 5% | 60 | 8% | 60 | 8% | 60 | 9% | 60 | 9% |
| **Lleoedd a lenwyd/ac fel % o'r cyfanswm cohort** | 22 | 3% | 30 | 4% | 40 | 5% | 34 | 5% | 40 | 6% |
| **Lleoedd sydd ar gael fel % o'r cyfanswm cohort** | 19 | 3% | 30 | 4% | 20 | 3% | 26 | 3% | 20 | 3% |

Ar hyn o bryd, mae capasiti digonol i ateb y galw o fewn y ddarpariaeth feithrin a gynhelir yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Mae nifer disgyblion meithrin wedi codi dros y 3 blynedd ddiwethaf. Dyrannwyd lleoedd i 45 disgybl yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg ar gyfer mis Medi 2021. Nid yw hyn yn cynnwys ffigurau codi'n 3 Tymor y Gwanwyn 2022, a benderfynir fel canlyniad i gylch derbyn meithrin 2022/23 (dyddiad cau 15 Hydref 2021).

Mae Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Blaenau Gwent yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a disgwylir y caiff y drafft terfynol ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2022, ar gyfer ymgynghoriad o fis Ebrill 2022. Caiff yr asesiad 5 mlynedd ei gwblhau yn 2022, gydag adolygiad blynyddol. Cynhelir hyn yn unol â phrosesau adolygiad blynyddol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac adroddiadau cysylltiedig. Dynododd yr Asesiad blaenorol fwlch mewn argaeledd darpariaeth Gymraeg yng Nghwm Ebwy Fawr, sy'n cael ei drin drwy Grant Cyfalaf Cynnig Gofal Plant, gyda lleoliad cyfrwng Cymraeg newydd ar y rhaglen i'w weithredu o 2023.

Mae Cylch Meithrin newydd ar y gweill ar gyfer Tredegar, yn dilyn cyflwyno Ti a Fi. Sefydlwyd y ddarpariaeth yn ystod 2019 a'i gofrestru yn 2020, ac mae recriwtio staff yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Disgwylir i'r lleoliad agor yn ystod tymor yr hydref 2021 a bydd hefyd yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg.

Mae meithrinfa ddydd bresennol yng Nglynebwy wedi ymrwymo i ddarparu sesiynau Cylch Meithrin dyddiol (sesiwn un awr yn y bore a hefyd y prynhawn). Mae'r lleoliad wedi derbyn cymorth Croesi'r Bont ers canol Ionawr 2020. Dynodwyd Swyddog Croesi'r Bont neilltuol iddynt, sy'n gweithio'n agos gyda nhw i sefydlu amserlen ar gyfer y sesiynau, a ddiweddarir bob bythefnos. Caiff datblygiad y plant yn y Gymraeg wedyn ei fonitro drwy asesiadau a gynhelir bedair gwaith y flwyddyn. Bu'r adborth o'r feithrinfa yn gadarnhaol hyd yma, gyda photensial ar gyfer cynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

**Lleoedd Meithrin nas cynhelir (yn cynnwys darpariaeth Mudiad Meithrin)**
Ar hyn o bryd mae 2 grŵp Cylch Meithrin yng Nghwm Ebwy Fach, un ohonynt yn cael ei redeg gan Bwyllgor Rheoli a'r llall gan Mudiad Meithrin. Manylion y grwpiau yw:

- Helyg Bychan, sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ers mis Medi 2010. Mae ar yr un safle ag Ysgol Gymraeg Bro Helyg ac mae'n gweithredu darpariaeth gofal dydd llawn ar gyfer 38 o blant (19 yn y bore a 19 yn y prynhawn), rhwng dwy a phump oed. Mae gan y lleoliad 50 o blant ar eu cofrestr ar hyn o bryd, sydd angen darpariaeth ar wahanol ddyddiau ac ar wahanol adegau. Felly, er nad ydynt wedi mynd dros eu hargaeledd lleoedd, nid oes ganddynt unrhyw leoedd ar gael ar hyn o bryd.
- Gwdihŵ (Brynithel), sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Rhagfyr 2015 i ddarparu gofal dydd ar gyfer hyd at 38 o blant yng Nghylch Meithrin Gwdihŵ. Mae'r lleoliad yn gweithio mewn partneriaeth gyda thîm Dechrau'n Deg Blaenau Gwent ac mae mewn adeilad modern, pwrpasol Dechrau'n Deg ar Stad Penrhiw ym Mrynithel. Yn 2020, cofrestrodd Gwdihŵ (Brynithel) i ddod yn ddarparydd addysg blynyddoedd cynnar o fis Medi 2021. Mae 28 o blant yn mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd, gyda 10 lle ar gael.

Mae'r ddwy ddarpariaeth yn bwydo i Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Mae lleoedd gofal plant ar gael drwy gydol y flwyddyn ar gyfer plant 2-4 oed. Maent yn cynnig lleoedd llawn-amser a hefyd ran-amser.

Mae Pobl Bach yn lleoliad gofal plant 'dwyieithog', sy'n darparu gofal dydd llawn ar gyfer 25 o blant 2-5 oed. Maent yn cynnig sesiynau bore a phrynhawn. Mae'r ddarpariaeth yn gweithio mewn partneriaeth gyda thîm Dechrau'n Deg Blaenau Gwent ac yn cynnig lleoedd i blant a gaiff naill ai eu hariannu'n breifat neu drwy Dechrau'n Deg. Gall y lleoliad ddarparu ar gyfer hyd at 50 o blant, gyda 49 o blant wedi cymryd lleoedd ar hyn o bryd, ac 1 lle ar gael.

**Pontio**
Yn ystod 2019/20, roedd 45 o blant yn mynychu darpariaeth Mudiad Meithrin, a symudodd 14 (31%) ohonynt ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg.

**Cynnig Gofal Plant**
Mae Ffigur 3 isod yn dangos nifer y plant a gymerodd le drwy'r cynnig Gofal Plant 30 awr mewn lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg.

**Ffigur 3: Dyraniad Lleoedd Cyfrwng Cymraeg Cynnig Gofal Plant**

| Lleoliad | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|
| Gwdihŵ (cyfrwng Cymraeg) | 1 | 1 | 1 |
| Helyg Bychan (cyfrwng Cymraeg) | 1 | 0 | 0 |
| Pobl Bach (dwyieithog) | 11 | 4 | 4 |

**Dechrau'n Deg**
Mae gan Blaenau Gwent 11 lleoliad Dechrau'n Deg ar draws y Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd:

- Caiff 3 eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol (Cefn Golau, Sofrydd a Garnlydan).
- Mae 5 yn ddarpariaethau cyfrwng Saesneg a gomisiynwyd (Tweeny Tots, Buds to Blossom, Jack & Gills, Mini Me a Flower & Shrub).
- Mae 2 yn ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg a gomisiynwyd (Cylch Meithrin Gwdihŵ a Helyg Bychan); ac
- 1 wedi ei gofrestru fel dwyieithog (Pobl Bach).

**Ffigur 4: Trosolwg Darpariaeth Dechrau'n Deg**

| Darparydd Gofal Plant Dechrau'n Deg – Enw a Chyfeiriad | Awdurdod Lleol neu leoliad a gomisiynwyd | Nifer lleoedd gofal plant sydd ar gael ym mhob sesiwn bore | Nifer lleoedd gofal plant sydd ar gael ym mhob sesiwn prynhawn | Cyfanswm nifer lleoedd gofal plant sydd ar gael fesul diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| First Friends | Awdurdod Lleol | 20 | 20 | 40 |
| Pobl Bach | Comisiynwyd | 25 | 25 | 50 |
| Tweenie Tots | Comisiynwyd | 28 | 28 | 56 |
| Twinkle Tots | Awdurdod Lleol | 28 | 0 | 28 |
| Buds to Blossoms | Comisiynwyd | 26 | 26 | 52 |
| Cylch Meithrin Helyg Bychan | Comisiynwyd | 19 | 19 | 38 |
| Flowering Shrubs | Comisiynwyd | 48 | 48 | 134 |
| Mini Me's | Comisiynwyd | 20 | 20 | 40 |
| Jack and Jill | Comisiynwyd | 24 | 24 | 48 |
| Cylch Meithrin Gwdihŵ | Comisiynwyd | 19 | 19 | 38 |
| Sunflowers | Awdurdod Lleol | 26 | 0 | 26 |

Mae pob lleoliad cyfrwng Saesneg yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol fel rhan o'u hymarfer, er mwyn cyflwyno'r defnydd o'r Gymraeg i holl blant Dechrau'n Deg a hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog drwy'r holl broses gais a phontio.

Mae gan Fenter Iaith (BGTM) Swyddog Datblygu sy'n aelod o Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent ac yn cynorthwyo wrth dargedu darpar rieni. Mae'r Swyddog yn rhoi gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref yn ogystal â hyrwyddo addysg Gymraeg yn gyffredinol, drwy drefnu amserlen o ddigwyddiadau teuluol mewn ardaloedd daearyddol strategol.

**Niferoedd Disgyblion Meithrin a Derbyn a'r Cohort Cyffredinol**
Mae Ffigur 5 yn rhoi manylion data (CYBLD) y cohort meithrin a dosbarth derbyn dros y 3 blynedd ddiwethaf, ynghyd â'r nifer o lleoedd Meithrin a Dosbarth Derbyn a ddyrannwyd yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Roedd ceisiadau ar gyfer plant codi'n 3 ym mis Ionawr a mis Ebrill 2022 yn fyw o 1 Medi 2021.

**Ffigur 5: Nifer Cohort Meithrin a Dosbarth Derbyn, lleoedd a ddyrannwyd yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg ac fel canran o'r cohort**

| | Meithrin | | | Derbyn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm Cohort | Nifer ym Mro Helyg | % | Cyfanswm Cohort | Nifer ym Mro Helyg | % |
| 2019/20 | 709 | 34 | 5% | 728 | 40 | 5% |
| 2020/21 | 676 | 42 | 6% | 710 | 38 | 5% |
| 2021/22 | 749 | 45 | 6% | 683 | 42 | 6% |

**Ble'r ydym yn anelu bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut y bwriadwn gyrraedd yno?**

Ym mis Medi 2023 bydd Blaenau Gwent yn agor Ysgol Gynradd Gymraeg egin 210 lle ar safle Chartist Way yn Nhredegar/Cwm Sirhywi. Datblygir yr ysgol drwy fodel twf egin. Yn ei blwyddyn gyntaf, bydd yr ysgol yn derbyn hyd at 24 o blant Meithrin a Dosbarth Derbyn.

Anelwn sicrhau mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg yn ardal ogleddol Ebwy Fawr a Thredegar/Cwm Sirhywi er mwyn sicrhau continwwm blynyddoedd cynnar effeithlon yn ogystal â chreu galw cynyddol a gwell pontio i addysg cyfrwng Cymraeg. Felly mae dau leoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol ar y rhaglen i'w gweithredu o dymor yr Hydref 2023 fel sy'n dilyn:

- Darpariaeth 28 lle yn yr un adeilad â'r ysgol gynradd Gymraeg newydd yn Nhredegar, a
- Darpariaeth 28 lle ar yr un safle ag adeilad newydd Ysgol Gynradd Glyncoed.

Mae Cyngor Blaenau Gwent yn anelu i weithredu ein hail ysgol gynradd Gymraeg yn llwyddiannus, wrth ochr ein strategaeth hyrwyddo twf addysg cyfrwng Cymraeg, a gaiff ei ategu a'i gyfoethogi gan ddarpariaeth gofal plant ychwanegol. Byddwn yn

| |
|---|
| parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y sector blynyddoedd cynnar i wella cyfraddau pontio rhwng gofal plant blynyddoedd cynnar a darparwyr addysg ac addysg statudol.<br><br>Wrth gyflawni ein nodau, byddwn yn:<br>• Adolygu'n ffurfio a chryfhau ein Strategaeth Hyrwyddo ac Ymgysylltu a'r cynllun gweithredu cyfathrebu cysylltiedig, mewn partneriaeth gydag is-grŵp Cyfathrebu y Fforwm Addysg Gymraeg. Yn ei dro, bydd hyn yn cynyddu a sicrhau lefelau addas o adnoddau i ddatblygu prosesau ymgynghori a deunyddiau cyfathrebu a marchnata effeithlon. Wrth ochr hyn, byddwn yn gweithio ar gynllun gweithredu ymgysylltu neilltuol gyda ffocws ar fapio a sicrhau ymgyfraniad rhanddeiliaid allweddol.<br>• Datblygu canllawiau, offerynnau ac adnoddau, ynghyd â rhaglen codi ymwybyddiaeth ar gyfer partneriaid allweddol i ategu'r strategaeth a nodir uchod. Nod hyn fydd cefnogi teuluoedd i wneud penderfyniadau gwybodus am flynyddoedd cynnar ac addysg, tra'n hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog, chwalu chwedlau a thrin pryderon rhieni/gofalwyr ar gam cynnar.<br>• Cefnogi rhieni i gael mynediad i sgiliau a dulliau yn y Gymraeg, drwy weithio'n agos mewn partneriaeth gydag ysgolion, addysg oedolion, addysg bellach a darparwyr hyfforddiant.<br>• Mewn partneriaeth gyda'r sector blynyddoedd cynnar, parhau i adolygu data a darpariaeth i gynllunio a llywio ein strategaeth twf cyfrwng Cymraeg.<br>• Sicrhau rheoli prosiect effeithlon ar ddatblygiadau gofal plant a hefyd ysgolion i sicrhau y cânt eu cyflawni i'r rhaglen a'r proffil, tra'n defnyddio'r Strategaeth Hyrwyddo ac Ymgysylltu i gefnogi'r galw cynyddol am leoedd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion.<br>• Datblygu Strategaeth Trochi a darpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid, gan gynnwys y capasiti i'r ddarpariaeth hon ddatblygu a thyfu. Sefydlu model arfer gorau i sicrhau cysondeb gweithredu, gwella cyfleoedd ar gyfer pontio, drwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a chynghorau ym mhob rhan o ranbarth De Ddwyrain Cymru.<br>• Sicrhau datblygiad ac adolygiad effeithlon o'r Cwricwlwm i Gymru ac addysgeg gysylltiedig ym mhob rhan o'r sectorau blynyddoedd cynnar ac addysg cyfrwng Cymraeg. Cyfrannu at bontio disgyblion yn effeithlon, ymgysylltu a deilliannau ar bob cam o'r daith dysgwyr.<br>• Cynnal astudiaeth dichonoldeb yn unol â'r potensial i gynyddu capasiti o fewn y sector cynradd rhwng 2027 a 2032, yn defnyddio'r model twf egin a fabwysiadwyd gan Flaenau Gwent i gyflawni'r maes hwn o waith.<br>• Gweithio'n agos gydag arweinwyr ysgolion i ddynodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu Canllawiau Categoreiddio'r Gymraeg Llywodraeth Cymru ym mhob rhan o'r stad ysgolion. Yn ei dro, cynyddu cyfleoedd a gwella safon addysg Gymraeg o fewn y system addysg lleol. |
| **Ble'r ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?** |
| Ar ddiwedd y cynllun 10-mlynedd, mae Blaenau Gwent yn anelu i sicrhau fod 100% o'r plant sy'n derbyn gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar yn pontio i addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn gweithredu 2 leoliad gofal plant ychwanegol yn llwyddiannus, ynghyd â'n hail Ysgol Gynradd Gymraeg, gan hefyd gynyddu |

DRAFT

capasiti Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Bydd y Cyngor wedi cynnal astudiaeth dichonoldeb yn unol â'r galw cynyddol a welir fel canlyniad i weithredu llwyddiannus ein Strategaeth Hyrwyddo ac Ymgysylltu, gan fod yn sail i'n cynllun ar gyfer capasiti ymhellach o fewn y sectorau gofal plant a chynradd rhwng 2027 a 2032.

**Data Allweddol 2022**

| Nifer a % plant 3 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 64 | 9% | 88 | 13% | 90 | 13% | 92 | 13% | 94 | 14% |
| 2027 - 2028 | | 2027 - 2028 | | 2027 - 2028 | | 2027 - 2028 | | 2027 - 2028 | |
| 94 | 14% | 94 | 14% | 94 | 14% | 94 | 14% | 94 | 14% |

# Deilliant 2

## Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Ble'r ydym arni yn awr?**

Mae data presennol amcanestyn nifer disgyblion yn dangos fod angen i'r Cyngor gynyddu'r nifer o leoedd sydd ar gael yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Cafodd y capasiti a'r nifer derbyn cysylltiedig o fewn yr ysgol eu gostwng yn flaenorol, er mwyn mynd i'r afael â lleoedd gwag cyn dechrau ac yn ystod cam dechreuol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20. Mae nifer disgyblion wedi dechrau cynyddu ers yr amser hwnnw.

Mae amcanestyniadau nifer disgyblion Ionawr 2021 yn dangos tueddiad ar i fyny yn nhermau nifer disgyblion yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg rhwng 2022 a 2025, gan arwain at faterion digonolrwydd, gyda mwy o ddisgyblion nag o leoedd ar gael. Mae amcanestyniad diffyg o rhwng -2 i -4 lle, sy'n debygol o gynyddu yn seiliedig ar ddata tueddiadau, a byddai'n golygu na all y Cyngor ateb y galw cynyddol os na chynyddir y capasiti.

Mae Ffigur 6 islaw yn rhoi trosolwg o'r cohort Dosbarth Derbyn cyffredinol ar gyfer Blaenau Gwent, ynghyd â'r lleoedd sydd ar gael, y galw a'r capasiti sydd ar gael mewn dosbarthiadau derbyn ar gyfer disgyblion ychwanegol rhwng 2017 a 2021.

DRAFT

**Ffigur 6: Data Cohort Dosbarth**

| | 2017 | | 2018 | | 2019 | | 2020 | | 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cohort disgyblion Dosbarth Derbyn | 740 | | 790 | | 780 | | 731 | | 718 | |
| Lleoedd Derbyn ar gael mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg | 51 | 7% | 36 | 5% | 34 | 4% | 30 | 4% | 30 | 4% |
| Lleoedd dosbarth derbyn a lanwyd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg/% o'r holl gohort | 24 | 2% | 25 | 3% | 30 | 4% | 39 | 5% | 36 | 5% |
| Capasiti lleoedd dosbarth derbyn ar gael mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg % | 27 | 4% | 11 | 1% | 4 | 1% | -9 | -1% | -6 | -1% |

DRAFT

Bydd y Cyngor yn agor ail Ysgol Gynradd Gymraeg yn Nhredegar/Cwm Sirhywi ym mis Medi 2023, a gaiff ei datblygu drwy fodel twf egin. Bydd yr ysgol newydd yn mynd i'r afael â'r galw cudd a ddynodwyd o fewn Tredegar/Cwm Sirhywi. Bydd gan yr ysgol newydd hefyd ran allweddol wrth gynyddu lleoedd addysg Gymraeg yn unol â tharged Blaenau Gwent o gynyddu nifer addysg disgyblion Blwyddyn 1 drwy gyfrwng y Gymraeg gan 6%.

Mae ceisiadau am drosglwyddo o fewn y flwyddyn ar gyfer lle yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg dros y 3 blynedd ddiwethaf ar ôl dechrau addysg mewn addysg cyfrwng Saesneg fel sy'n dilyn:

- 2018/19 – 10 disgybl (6 disgybl Blwyddyn 1, 1 Blwyddyn 2, 1 Blwyddyn 3, 1 Blwyddyn 4, ac 1 Blwyddyn 6)
- 2019/20 – 9 disgybl (2 disgybl Meithrin, 2 Blwyddyn 1, 3 Blwyddyn 2, 1 Blwyddyn 5 ac 1 Blwyddyn 6)
- 2020/21 – 6 disgybl (3 disgybl Meithrin, 1 Dosbarth Derbyn, 1 Blwyddyn 2 ac 1 Blwyddyn 5)

Cafodd y disgyblion hyn eu cefnogi gan y staff presennol, gyda chapasiti cyfyngedig i fynd i'r afael yn llawn â'u hanghenion Cymraeg ail iaith mewn darpariaeth trochi, gan sicrhau fod y disgyblion hyn mewn sefyllfa i integreiddio'n llawn gyda'u cyfoedion sydd eisoes wedi cael darpariaeth trochi.

**Ble'r ydym yn anelu bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun a sut ydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

Mae'r Cyngor wedi defnyddio data cyfredol ar gapasiti ysgolion ynghyd ag amcanestyniad nifer disgyblion er mwyn modelu'r cynnydd cronnus mewn capasiti sydd ei angen yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg i alluogi'r Cyngor i ateb y galw cynyddol a chyrraedd y targed trosfwäol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 1.

Yn ychwanegol, cynhaliwyd modelu eisoes yng nghyswllt y cynllun twf o'r Ysgol Gynradd 210 lle sydd i agor yn Nhredegar yn 2023. Mae Ffigur 7 islaw yn rhoi manylion y twf a fwriedir.

**Ffigur 7: Capasiti ysgolion ac amcanestyniad niferoedd**

| Blynyddoedd Academaidd | Ysgol Gymraeg Bro Helyg | Ysgol newydd Tredegar | Amcanestyniad nifer lleoedd dosbarth derbyn fydd ar gael |
|---|---|---|---|
| **2021/22** | 30 | 0 | **30** |
| **2022/23** | 30 | 0 | **30** |
| **2023/24** | 34 | 24 | **58** |
| **2024/25** | 36 | 24 | **60** |
| **2025/26** | 40 | 26 | **66** |
| **2026/27** | 44 | 28 | **72** |

Mae'r Cyngor yn anelu i sicrhau'r twf a'r capasiti mwyaf o fewn y ddwy ysgol gynradd drwy alinio'r cynllun twf gyda'r Strategaeth Hyrwyddo ac Ymgysylltu.

Mae'r Cyngor yn anelu i ddatblygu uned drochi un cyfnod yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg gyda chapasiti i dyfu yn ddarpariaeth trochi cyfnod hollt yn unol â galw posibl yn y dyfodol. Er mwyn llywio datblygiad y ddarpariaeth, byddwn yn anelu i sicrhau a defnyddio cyllid trochi Llywodraeth Cymru i sicrhau gweithiwr proffesiynol addysg gyda chymwysterau i:

- gwmpasu a datblygu adnoddau trochi h.y. pecynnau penodol o ran oedran ac ar gyfer Blynyddoedd 2- 6.
- cynnal rhaglen hyfforddiant staff i ymwreiddio egwyddorion ac arferion a defnyddio adnoddau yn effeithlon i hwyluso darpariaeth trochi.
- cynllunio datblygu rhaglen beilot pontio tymor byr yn defnyddio'r cyfleusterau presennol, i redeg rhwng 2022 a 2025.
- sicrhau adnoddau addysg i gefnogi darparu addysgu a dysgu yn defnyddio dulliau trochi; a
- chefnogi datblygu rhestr adeiladau i lywio datblygu prosiect cyfalaf.

Byddwn yn sicrhau fod y gweithiwr proffesiynol yma yn gweithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos er mwyn cymharu modelau ar gyfer darpariaeth trochi, dynodi a thrin unrhyw fylchau, tra hefyd yn mesur a datblygu arfer gorau. Yn ychwanegol, bydd y datblygiad hwn wedi'i alinio'n gadarn gyda ac yn llywio'r Strategaeth Hyrwyddo ac Ymgysylltu.

Unwaith y bydd wedi'i ddatblygu, defnyddir yr adnoddau er mwyn cefnogi disgyblion cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol y mae pandemig COVID-19 wedi effeithio'n negyddol ar eu caffaeliad iaith. Gan weithio gyda Phennaeth a Chydlynydd Anghenion Dysgu

Ychwanegol Ysgol Gymraeg Bro Helyg er mwyn asesu effaith y pandemig, rydym wedi sefydlu bod grwpiau ym mhob dosbarth o Flwyddyn 2 – Blwyddyn 6 a fyddai'n cael budd o'r math hwn o ddarpariaeth trochi iaith. Byddai'r pecynnau adnoddau ac ymyriadau yn cael eu peilota gyda'r grwpiau hyn yn y lle cyntaf. Byddai'r disgyblion hyn yn gweld buddion ar unwaith fel canlyniad i'r prosiect trochi.

Cynhelir cynllun peilot ffurfiol wedyn yn unol gyda galw trosglwyddo yn ystod y flwyddyn o fis Medi 2021 nes y caiff uned darpariaeth trochi arbennig ei hadeiladu, y rhagwelir fyddai erbyn mis Medi 2025. Byddai'r uned honno yn sicrhau y gall yr ysgol dderbyn a hyrwyddo darpariaeth trochi wrth ochr manteision bod yn ddwyieithog.
Wrth gyflawni ein hamcanion:

- Mae Cymraeg 2050 yn dweud y bydd trochi'n llawn yn y Gymraeg yn ffactor allweddol yn gysylltiedig gyda thwf llwyddiannus y Gymraeg, gan olygu mai lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn bennaf a/neu gyfrwng Cymraeg yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o greu twf iaith lle mae gan y disgyblion y sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Felly, drwy ymgynghori ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol, byddwn yn anelu i ddatblygu mwy o ddewis ieithyddol ar gyfer pobl ym mhob rhan o'r stad ysgolion.
- Sicrhau datblygiad pellach ar gynnydd yn y Gymraeg drwy weithio gyda EAS i hyrwyddo a datblygu Ysgolion Cymraeg Campus. Mae Cymraeg Campus yn siarter iaith a ddefnyddir i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ledled yr ysgol, ar draws y cwricwlwm ac ym mhob maes o fywyd ysgol. Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg wedi sefydlu 'Criw Cymraeg', sy'n llais i ddisgyblion a sefydlwyd i annog a hyrwyddo'r Gymraeg tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Byddwn yn gweithio gyda'r grŵp hwn i ddatblygu ein Strategaeth Hyrwyddo ac Ymgysylltu gyda golwg ar gynyddu llais ac ennyn diddordeb disgyblion.
- Sicrhau bod yr ysgol gynradd egin cyfrwng Cymraeg 210 lle newydd yn Nhredegar/Cwm Sirhywi a'i thwf yn llwyddiannus
- Adolygu'r dalgylchoedd a gofynion cludiant rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn gwella trefniadaeth ysgolion Cymraeg, mynediad a datblygu polisi cysylltiedig.
- Mae gan Flaenau Gwent drefniadau cydweithio rhagorol gyda Rhanbarth De Ddwyrain Cymru (Sir Fynwy, Torfaen, Caerffili, Casnewydd) yn ogystal â Merthyr Tudful/Powys. Mae swyddogion y cyngor yn gweithio gyda'u cyd swyddogion yn rhanbarthol i ddatblygu darpariaeth uwchradd o fewn ardal Blaenau'r Cymoedd yn unol â Rhaglen Band C Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd y datblygiad hwn yn sicrhau cyfleoedd dilyniant gwell a chynaliadwy ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg a chynyddu capasiti y continwwm dysgu presennol.
- Cynnal astudiaeth dichonoldeb yn unol â'r potensial am gynyddu capasiti o fewn y sector cynradd rhwng 2027 a 2032, gan ddefnyddio'r model twf egin a fabwysiadwyd gan Flaenau Gwent i gyflawni ar y targed o 75 o addysg disgyblion Blwyddyn 1 drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2032.
- Datblygu Polisi Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent i ymwreiddio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a datblygiadau cysylltiedig o fewn cynllunio ac ymarfer addysg ehangach, a hefyd sicrhau'r lefel ofynnol o adnoddau a buddsoddiad i gyflawni'r blaenoriaethau a fanylir o fewn Cynllun hwnnw.
- Datblygu cynllun cyflenwi yn gydnaws â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a gaiff ei fonitro bob tymor, er mwyn asesu cynnydd yn effeithiol a'r camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cyflawni ein targedau.

- Sicrhau cynllunio ac adolygu addysg cyfrwng Cymraeg gyda pholisïau a strategaethau eraill perthnasol y Cyngor, yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i:
  - Polisi Trefniadaeth Ysgolion Blaenau Gwent
  - Polisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol a Thrafnidiaeth Ôl-16 Blaenau Gwent;
  - Polisi Derbyn ar gyfer Addysg Feithrin a Statudol (ynghyd â phrosesau cysylltiedig) Blaenau Gwent;
  - Cynllun Datblygu Lleol Blaenau Gwent; a
  - Strategaeth Ariannol Tymor Canol Blaenau Gwent.

**Ble'r ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Mae'r Cyngor yn bwriadu sicrhau continwwm o ddarpariaeth addysg Gymraeg hygyrch, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer gwella caffael a defnydd y Gymraeg ym mhob rhan o'r stad ysgolion.

**Ffigur 8: Amcanestyniad Capasiti Dosbarthiadau Derbyn (2028 – 2031)**

| Blwyddyn Academaidd | Ysgol Gymraeg Bro Helyg | Ysgol Gynradd Egin Cyfrwng Cymraeg newydd | Amcanestyniad y Lleoedd Dosbarth Derbyn fydd ar gael |
|---|---|---|---|
| 2028/29 | 51 | 30 | **81** |
| 2029/30 | 51 | 30 | **81** |
| 2030/31 | 51 | 30 | **81** |
| 2031/32 | 51 | 30 | **81** |

**Data Allweddol.**

**Ffigur 9: Amcanestyniad Nifer Disgyblion Ysgol Gymraeg Bro Helyg**

| AMCAN-ESTYNIAD NIFER DISGYBLION: | | Der | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr 2022 | | 30 | 33 | 38 | 26 | 26 | 22 | 38 | **213** |
| Ionawr 2023 | | 30 | 30 | 33 | 38 | 26 | 26 | 22 | **205** |
| Ionawr 2024 | 241 cap | 34 | 30 | 30 | 33 | 38 | 26 | 26 | **217** |
| Ionawr 2025 | 250 cap | 36 | 34 | 30 | 30 | 33 | 38 | 26 | **227** |
| Ionawr 2026 | 280 cap | 40 | 36 | 34 | 30 | 30 | 33 | 38 | **241** |
| Ionawr 2027 | 310 cap | 44 | 40 | 36 | 34 | 30 | 30 | 33 | **247** |
| Ionawr 2028 | 330 cap | 47 | 44 | 40 | 36 | 34 | 30 | 30 | **261** |
| Ionawr 2029 | 360 cap | 51 | 47 | 44 | 40 | 36 | 34 | 30 | **282** |

**Ffigur 10: Ysgol Gynradd Egin (Tredegar) Agor Medi 2023**

| AMCAN-ESTYNIAD NIFER DISGYBLION: | | Der | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr 2024 | 210 cap | 24 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **24** |
| Ionawr 2025 | 210 cap | 24 | 24 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **48** |
| Ionawr 2026 | 210 cap | 26 | 24 | 24 | 0 | 0 | 0 | 0 | **74** |
| Ionawr 2027 | 210 cap | 28 | 26 | 24 | 24 | 0 | 0 | 0 | **102** |
| Ionawr 2028 | 210 cap | 30 | 28 | 26 | 24 | 24 | 0 | 0 | **132** |
| Ionawr 2029 | 210 cap | 30 | 30 | 28 | 26 | 24 | 24 | 0 | **162** |

| Nifer a % plant 5 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 – 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 30 | 4% | 30 | 7% | 58 | 8% | 60 | 8% | 66 | 9% |
| 2027 - 2028 | | 2028 – 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 72 | 10% | 77 | 11% | 81 | 11% | 81 | 11% | 81 | 11% |

## Deilliant 3

## Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

**Ble'r ydym ni arni yn awr?**

**Y Gymraeg fel iaith gyntaf**
Ar hyn o bryd mae cytundeb partneriaeth rhanbarthol yn ei le, ynghyd â phrosesau cysylltiedig ar gyfer cynllunio lleoedd disgyblion, lle mae'r ysgol gynradd Gymraeg ym Mlaenau Gwent yn ffurfio rhan o glwstwr Ysgol Gyfun Gwynllyw.

Mae Ffigur 11 islaw yn rhoi manylion a chanran y disgyblion yn y cohort blwyddyn 6, ynghyd â'r nifer o ddisgyblion Blwyddyn 6 ym Mlaenau Gwent a'r gyfradd pontio ar gyfer y 3 sesiwn academaidd ddiwethaf.

**Ffigur 11: Cyfraddau Trosiant – disgyblion Bl 6**

| | Ysgol Gyfun Gwynllyw | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm Cohort | Nifer i Gwynllyw | % | Cyfradd Pontio |
| **2019/20** | 788 | 37 | 5% | 100% |
| **2020/21** | 799 | 22 | 3% | 100% |
| **2021/22** | 790 | 31 | 4% | 100% |

Er bod nifer disgyblion Blwyddyn 6 yn parhau'n isel o gymharu â'r ysgolion bwydo eraill, mae cyfradd pontio Blaenau Gwent rhwng addysg gynradd ac uwchradd yn rhagorol, gyda 100% o ddisgyblion yn trosglwyddo i CA2 i CA3 dros y 3 blynedd ddiwethaf.

Ni chafodd y pandemig effaith negyddol ar gyfraddau pontio. Fodd bynnag, mae staff Ysgol Gymraeg Bro Helyg wedi nodi y bu effaith negyddol ar safonau llafar, caffael a defnydd o'r Gymraeg ymysg disgyblion. Dynodwyd fod tua 40-50 disgybl angen ymyriad darpariaeth trochi ychwanegol.

Cynhaliwyd gweithgareddau pontio rhwng 2020 a 2021 yn rhithiol. Mae Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent yn cynnal diwrnod hwyl un diwrnod ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg sy'n cefnogi disgyblion Blwyddyn 6 ac yn canolbwyntio ar bontio.

Mae Ffigur 12 isod yn rhoi nifer a chanran y disgyblion yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg a gafodd eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 2017/18 a 2020/21 fel cyfanswm ac fel canran o'r holl ddisgyblion CA2.

**Ffigur 12: Nifer a % y disgyblion a aseswyd drwy gyfrwng y Gymraeg**

| 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|
| Nifer cyfrwng Cymraeg 187 (allan o 4,567) = 4% | Nifer cyfrwng Cymraeg 182 (allan o 3,923) = 5% | Nifer cyfrwng Cymraeg 169 (allan o 4,636) = 4% | Nifer cyfrwng Cymraeg 184 (allan o 4,566) = 4% |

Mae Ffigur 13 isod yn cyflwyno nifer a chanran i disgyblion Blwyddyn 1 – 6 sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg (yn cynnwys darpariaeth ffydd ac ysgolion arbennig) yn CYBLD Medi 2020.

**Ffigur 3: Nifer a % disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg**

| | Blwyddyn 1 | | Blwyddyn 2 | | Blwyddyn 3 | | Blwyddyn 4 | | Blwyddynr 5 | | Blwyddyn 6 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| **Cyfrwng Cymraeg** | 43 | 6 | 23 | 3 | 26 | 3 | 23 | 3 | 38 | 5 | 31 | 4 |
| **Cyfrwng Saesneg** | 694 | 94 | 747 | 97 | 758 | 97 | 708 | 97 | 723 | 95 | 752 | 96 |

Mae EAS yn cefnogi safonau llythrennedd clystyrau. O fis Medi 2021 ymlaen, bydd mwy o bwyslais ar strategaeth lafar, gydag arferion ar y cyd yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru a chyfnodau traws-ddilyniant. Mae pob ysgol yn ailedrych ac yn cynllunio eu taith, gan y codwyd disgwyliadau am sgiliau ieithyddol.

**Ble'r ydym ni'n anelu bod o fewn y 5 mlynedd gyntaf o'r Cynllun hwn a sut ydym ni'n bwriadu cyrraedd yno?**

Bydd niferoedd pontio i ysgolion uwchradd yn parhau'n gymharol isel fel yn y data a gyflwynir yn y tabl isod am 5 mlynedd gyntaf y cynllun 10-mlynedd yn seiliedig ar CYBLD Ionawr 2021. Mae cyfraddau pontio yn debyg o gynyddu o fis Medi 2030, pan

fydd y cohort cyntaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 o'r ail ysgol gynradd yn pontio o CA2 i CA3. Anelwn gynnal y gyfradd pontio uchel a fanylir yn ffigur 14 islaw.

**Ffigur 14: % dysgwyr Cymraeg yn symud o CA2 i CA3**

| | Cohort Bl 6 | Nifer dysgwyr yn pontio o CA2 i CA3 | % dysgwyr | Cyfradd pontio targed |
|---|---|---|---|---|
| **Medi 2022** | 764 | 38 | 5% | 100% |
| **Medi 2023** | 731 | 22 | 3% | 100% |
| **Medi 2024** | 789 | 26 | 3% | 100% |
| **Medi 2025** | 778 | 26 | 3% | 100% |
| **Medi 2026** | 728 | 38 | 5% | 100% |
| **Medi 2027** | 718 | 33 | 5% | 100% |
| **Medi 2028** | 683 | 30 | 4% | 100% |
| **Medi 2029** | (728) | 30 | 4% | 100% |
| **Medi 2030** | (728) | 54** | 7% | 100% |
| **Medi 2031** | (728) | 58 | 8% | 100% |
| **Medi 2032** | (728) | 60 | 8% | 100% |

**** Cohort 1af o Dredegar i fynd i ddarpariaeth uwchradd**

Mae'n anochel y bydd y cynnydd yn nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn y sector cynradd yn effeithio ar nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd eu hangen yn y sector uwchradd. Yn ychwanegol, mae'n debyg y bydd cynnig aildrefnu ysgolion Cyngor Torfaen i ymestyn darpariaeth ar safle bresennol Ysgol Gyfun Gwynllyw i sefydlu ysgol Gymraeg 3-18 oed yn effeithio ar nifer y lleoedd fydd ar gael i ddysgwyr Blaenau Gwent o 2028 ymlaen. Bydd y ddau Gyngor yn parhau i gydweithio'n agos i gynllunio dyraniad lleoedd disgyblion am 5 mlynedd gyntaf y cynllun hwn.

Wrth gyflawni ein nodau, byddwn yn:

- Parhau i gydweithio gydag awdurdodau cyfagos yn cynnwys Sir Fynwy, Powys a Merthyr Tudful er mwyn sicrhau ysgol uwchradd ranbarthol o fewn ardal Blaenau'r Cymoedd i greu continwwm dysgu cynaliadwy ar gyfer pob disgybl. Mae cynlluniau wrthi'n cael eu datblygu a byddant yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer eu cyflawni yn unol â Rhaglen Band C Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- Gweithio gyda EAS i fapio darpariaeth addysg gyfredol yn ôl continwwm addysgu a dysgu Cymraeg, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru 'Categorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg'. Gan ddefnyddio data llinell sylfaen o arolygon CYBLD, datblygir gwaith mapio yn 2022 i benderfynu ble a sut y caiff ysgolion eu lleoli yn unol â'r canllawiau. Gwneir mwy o waith i benderfynu'r cyfleoedd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn y dyfodol.
- Bydd y Cyngor yn cefnogi ysgolion er mwyn iddynt ateb y deilliannau addysgol/ieithyddol a ddisgwylir. Hefyd, ddynodi a gweithio gydag ysgolion sy'n dymuno ystyried ailgategoreiddio yn unol â'r rhwydwaith Cymraeg Campus.
- Gweithio gydag ysgolion cyfrwng Saesneg i gefnogi datblygiadau ieithyddol a sgiliau staff ysgol i symud o leoliadau Saesneg i rai Cymraeg neu ddwyieithog, gan gynnig mwy o ddewis iddynt y dyfodol.
- Hoffai Ysgol Gymraeg Bro Helyg barhau i gefnogi pontio o cynradd i uwchradd, yn arbennig o amgylch Mathemateg a Gwyddoniaeth gan sicrhau ymgysylltu cynnar ym Mlwyddyn 5.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a'r Gwasanaeth Ieuenctid i roi cefnogaeth ynghylch pontio a llesiant emosiynol.

DRAFT

- Monitro a chynyddu dilyniant ieithyddol mewn partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac Ysgol Gyfun Gwynllyw.
- Ymgynghori gyda rhanddeiliaid perthnasol er mwyn cynllunio datblygiad a dilyniant ieithyddol yn CA2 a CA3 gan adolygu cyfraddau dilyniant ar gyfer dysgwyr Blaenau Gwent.
- Rhoi cefnogaeth i ddisgyblion sydd wedi cyflwyno gyda phroblemau ar draws pob grŵp oedran – yn arbennig y rhai sy'n pontio o cynradd i uwchradd.
- Cynnal gwaith mapio ar ddata dilyniant Cwricwlwm i Gymru.
- Adolygu  capasiti a'r galw am ysgolion yn unol â cheisiadau derbyn a throsglwyddo yn ystod y flwyddyn.

**Ble'r ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Mae'r Cyngor yn bwriadu gweithio gydag awdurdodau cyfagos i sicrhau datrysiad ysgol uwchradd o fewn ardal Blaenau'r Cymoedd erbyn 2030 er mwyn creu continwwm cynaliadwy o ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg.

Byddwn yn gweithio i gynnal y gyfradd pontio bresennol o 100%, gan sicrhau fod yr adolygiadau polisi perthnasol yn parhau i gefnogi a gwella mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

**Data Allweddol**

**Ffigur 15: Pontio i Ysgol Uwchradd**

| | Bydd disgyblion Bl6 yn pontio i Ysgol Gwynllyw Torfaen | | | | Lleoedd Uwchradd fydd eu hangen o 2026 ymlaen | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 |
| Ysgol Gymraeg Bro Helyg Lleoedd Disgyblion Bl 6 | 38 | 22 | 26 | 26 | 38 | 33 | 30 | 30 | 30 | 34 | 36 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg newydd Lleoedd Disgyblion Bl 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 24 | 24 | 24 |
| Cyfanswm | 38 | 22 | 26 | 26 | 38 | 33 | 30 | 30 | 54 | 58 | 60 |

| Nifer a % dysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau yn y Gymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall. | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 38 | 100% | 22 | 100% | 26 | 100% | 26 | 100% | 38 | 100% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 33 | 100% | 30 | 100% | 30 | 100% | 54 | 100% | 58 | 100% |

# Deilliant 4

## Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

**Ble'r ydym arni yn awr?**

Mae disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Bro Helyg ym Mlaenau Gwent yn derbyn eu haddysg uwchradd yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yn Nhorfaen. Mae Ffigur 16 isod yn dangos y nifer o ddysgwyr Blaenau Gwent ym mhob grŵp blwyddyn yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21.

**Ffigur 16: Nifer ar y gofrestr yn Ysgol Gyfun Gwynllyw 2020/21**

| | Nifer ar y gofrestr | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp Blwyddyn** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | **12** | **13** | **14** |
| **Ysgol Gyfun Gwynllyw Torfaen** | 136 | 144 | 132 | 112 | 114 | 48 | 61 | 8 |
| **Nifer dysgwyr o Flaenau Gwent yn Ysgol Gyfun Gwynllyw** | 18 | 31 | 29 | 32 | 18 | 7 | 9 | 1 |

**Nifer a chanrannau disgyblion yn astudio eu manyleb iaith gyntaf yn 2020/21**

- CA4 – Yn haf 2020, roedd 19 o ddysgwyr o Flaenau Gwent yn astudio am gymhwyster TGAU iaith **gyntaf** yn Ysgol Gyfun Gwynllyw.
- CA5 – Yn haf 2020, roedd nifer y dysgwyr o Flaenau Gwent yn astudio am bwnc Lefel A (oedd yn flaenorol wedi astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf) yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yn 7 disgybl ym Mlwyddyn 13, a 2 ddisgybl ym Mlwyddyn 14.

**Nifer a chanrannau disgyblion yn astudio manyleb ail iaith yn 2020/21**

- CA3 – cynigir TGAU Cymraeg (Ail Iaith) ym mhob ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ym Mlaenau Gwent.
- CA4 – yn haf 2020 (sesiwn academaidd 2019/20), y nifer o ddysgwyr Blaenau Gwent oedd yn astudio am TGAU **ail** iaith ym Mlwyddyn 11 oedd 522 disgybl, 84.6% o'r cohort.

Mae myfyrwyr naill ai'n astudio yn Ysgol Gyfun Gwynllyw neu Goleg Gwent ar CA5. Nid oes darpariaeth chweched dosbarth yn ysgolion uwchradd Blaenau Gwent. Mae Ffigur 18 isod yn rhoi trosolwg o ddysgwyr Cymraeg fel ail iaith a Chymraeg iaith gyntaf yn CA4 a CA5

**Ffigur 18: Nifer dysgwyr yn astudio'r Gymraeg**

| | **TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ** yn Ysgol Gwynllyw Torfaen** | **TGAU Cymraeg Ail Iaith ym Mlaenau Gwent** | **Lefel AS/A Cymraeg fel Iaith Gyntaf** yn Ysgol Gwynllyw Torfaen** | **Darpariaeth Coleg Gwent** |
|---|---|---|---|---|
| **2020/21** | **228 dysgwr** | **478 dysgwr** | **116 dysgwr** | **10 dysgwr** |

DRAFT

**Y Gymraeg fel ail iaith ym Mlaenau Gwent**
Mae Ffigur 19 isod yn rhoi trosolwg cymharol o ddysgwyr (yn cynnwys fel canran o'r cohort) fu'n astudio'r Gymraeg fel ail iaith (y ffynhonnell yw crynodeb canlyniadau CBAC a data adroddiad ymgeisydd). Mae'r niferoedd wedi amrywio dros y 5 mlynedd ddiwethaf gyda 2021 yr isaf yn nhermau'r dysgwyr yn astudio'r Gymraeg fel ail iaith; fodd bynnag, mae'r canrannau'n barhau'n gymharol sefydlog dros y dadansoddiad 5-mlynedd.

**Ffigur 19: Y Gymraeg fel ail iaith – data dysgwyr**

| Diwedd Blwyddyn Academaidd | Cohort | Y Gymraeg fel ail iaith | % o'r Cohort |
|---|---|---|---|
| 2017 | 607 | 503 | 83% |
| 2018 | 586 | 499 | 85% |
| 2019 | 532 | 479 | 90% |
| 2020 | 617 | 522 | 85% |
| 2021 | 559 | 478 | 86% |

Mae'r Urdd a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol/coleg. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn hyrwyddo Uned Diwylliant Cymraeg gydag achrediad.

**Nifer a Chanran Dysgwyr yng Ngholeg Gwent**
Iaith dysgu ac asesu Coleg Gwent yn defnyddio'r categorïau dilynol yn unol â Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru:

- B3 = ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg
- B2 = cryn dipyn o ddysgu cyfrwng Cymraeg
- B1 = dysgu wedi ei gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog
- C1 = dysgu wedi ei gwblhau mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg

Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n dymuno cymryd arholiadau Lefel A drwy gyfrwng y Gymraeg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae hyn yn dueddiad rhanbarthol ar hyn o bryd. Mae gan Goleg Gwent lai na 10 o ddysgwyr ar hyn o bryd sy'n astudio eu Lefel A drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd Coleg Gwent beth llwyddiant mewn blynyddoedd diweddar wrth gynyddu nifer y dysgwyr o fewn categorïau B1 a B2, yn neilltuol. Fodd bynnag, mae'r niferoedd yn dal yn gymharol isel ac mae gan y coleg weledigaeth uchelgeisiol i gynyddu eu niferoedd dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'r data diweddaraf (nifer dysgwyr yn 2020-2021) fel sy'n dilyn:

**Ffigur 20: nifer o ddysgwyr Cymraeg CA5**

| B3: Ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg | B2: Cryn dipyn o ddysgu cyfrwng Cymraeg | B1: Dysgu wedi ei gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog | C1: Dysgu wedi ei cwblhau mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|---|
| 276 | 93 | 144 | 0 |

DRAFT

| |
|---|
| Mae mwy o bynciau/cyrsiau wedi cynnwys adrannau i hyrwyddo dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff hyn ei ymestyn yn y flwyddyn academaidd ddilynol. Mae rhyngddibyniaeth glir rhwng llwyddiant gweledigaeth Coleg Gwent a sicrhau gweithlu gyda chymwysterau addas a lefelau staffio i gyflwyno'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Ble'r ydym ni'n anelu bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut ydym ni'n bwriadu cyrraedd yno?** |
| Felly mae'r Cyngor yn bwriadu cynyddu capasiti a galw o fewn y sector cynradd, gan sicrhau fod pontio o CA2 i CA3 yn parhau ar 100%. Bydd hyn yn ei dro yn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio am gymwysterau Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Wrth gyflawni ein nodau, byddwn yn:<br>• Rhoi cefnogaeth i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn unol â thaith dysgwr dwyieithog, i sicrhau fod y ddarpariaeth Gymraeg o'r safon uchaf bosibl;<br>• Gweithio gyda Choleg Gwent ac ysgolion cyfrwng Saesneg i hyrwyddo a chynyddu'r galw am Lefel A Cymraeg;<br>• Gweithio gyda EAS i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu gweithlu ar gyfer staff addysgu, gan hybu eu sgiliau a'u darpariaeth;<br>• Gweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i roi cefnogaeth a sicrhau fod yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a ddefnyddir gan ddisgyblion Blaenau Gwent yn cydymffurfio'n llwyr gyda'r Cwricwlwm i Gymru;<br>• Sicrhau fod ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn cydymffurfio gyda'r gofynion rheoleiddiol a seiliedig ar y cwricwlwm yn unol â chyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith;<br>• Gweithio gyda EAS ac ysgolion er mwyn asesu a gweithredu'r newidiadau ac argymhellion sydd eu hangen yn unol ag ymgynghoriad Cymwysterau Cymru;<br>• Creu partneriaethau cryfach gydag ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg ym Mlaenau Gwent a Choleg Gwent, gan sicrhau cydweithio effeithlon gyda phenaethiaid adrannau wrth ddynodi dysgwyr i barhau â'u taith Cymraeg ail iaith, tra hefyd yn hyrwyddo Lefel A Cymraeg;<br>• Adolygu a datblygu ymhellach y deunyddiau ac adnoddau marchnata a chyfathrebu 'Bod yn Ddwyieithog' er mwyn llywio opsiynau pontio a chyswllt gyda disgyblion, rhieni a gofalwyr;<br>• Gweithio ar draws ffiniau i annog galw am addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg, gan sicrhau y caiff y continwwm dysgu ar gyfer disgyblion ei fapio'n glir a'i ddeall gan ddisgyblion, rhieni a gofalwyr;<br>• Ar gyfer dysgu Ôl 16, sicrhau fod EAS, Coleg Gwent, Gyrfa Cymru a'r Coleg Cymraeg yn ymwneud yn llawn â sicrhau a hybu cynnydd gyrfa drwy gyfrwng y Gymraeg;<br>• Yn dilyn y llyw gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, bydd Coleg Gwent yn parhau i ganolbwyntio ar ymwreiddio unedau dwyieithog llawn i'r prif gymwysterau mewn meysydd cwricwlwm dwyieithog blaenoriaeth. Yn y 5 mlynedd gyntaf bydd y ffocws ar ofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y Coleg yn cyflogi staff newydd (neu gynyddu |

sgiliau staff presennol) i gyflwyno unedau dwyieithog yn y tri maes cwricwlwm yma. Bydd hyn yn cyfrannu at gyflawni targedau dilynol Coleg Gwent:

**Ffigur 21: Targedau 5-mlynedd Coleg Gwent**

| B3: Ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg | B2: Llawer o ddysgu cyfrwng Cymraeg | B1: Dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog | C1: Dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|---|
| 2000* | 400 | 600 | *** |

***Bydd y coleg yn datblygu pecyn digidol fydd yn galluogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr galwedigaethol i gyflawni o leiaf B3.**

***** Bydd Coleg Gwent yn canolbwyntio ar ymwreiddio unedau Cymraeg a dwyieithog i'r prif raglenni yn hytrach na chyflwyno cyrsiau llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Ble'r ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Ar ddiwedd y cynllun 10-mlynedd hwn, disgwylir y bydd mwy o ddysgwyr Blaenau Gwent yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliad uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Drwy'r bartneriaeth a'r cydweithio presennol gyda Sir Fynwy, Powys a Merthyr Tudful, sefydlir ysgol uwchradd yn ardal Blaenau'r Cymoedd, gan gynyddu opsiynau uwchradd cyfrwng Cymraeg a hefyd ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr Blaenau Gwent.

Byddwn yn gweld cynnydd yn y galw gan ddysgwyr i astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg ym Mlaenau Gwent. Yn ychwanegol, bydd y canran o gymwysterau a astudir drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn cynyddu.

Drwy ddatblygu strategaeth Hyrwyddo ac Ymgysylltu effeithlon, byddwn yn anelu i:

- Liniaru unrhyw bryderon sydd gan rieni a gofalwyr yng nghyswllt eu plentyn/plant yn mynychu lleoliadau addysg cyfrwng Cymraeg.
- Chwalu chwedlau a sicrhau fod gwybodaeth glir a chryno ar gael ar gyfer disgyblion, rhieni a gofalwyr ar eu hopsiynau addysg a manteision bod yn ddwyieithog.
- Datblygu hyder rhieni, gofalwyr a dysgwyr yn y daith ieithyddol; a
- Sicrhau y caiff dysgwyr, rhieni a gofalwyr wybodaeth lawn am y llwybrau dilyniant a gyrfa sydd ar gael ar gyfer dysgwyr/siaradwyr Cymraeg.

Bydd y Coleg yn parhau i ddatblygu modiwlau dwyieithog ar draws yr holl feysydd blaenoriaeth gweddilliol (cyfanswm o 7 maes cwricwlwm). Bydd hyn yn cynnwys datblygu adnoddau yn ogystal â recriwtio staff medrus.

Mae Coleg Gwent wedi sefydlu targedau 10-mlynedd yn unol â ffigur 22 islaw, ac mae'r Cyngor yn ymroddedig i gefnogi hynny.

DRAFT

**Ffigur 22: Targedau ar gyfer darpariaeth ddwyieithog**

| B3: Ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg | B2: Llawer o ddysgu cyfrwng Cymraeg | B1: Dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog | C1: Dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|---|
| 3000 | 500 | 1000 | *** |

*** **Bydd y coleg yn canolbwyntio ar ymwreiddio unedau Cymraeg a dwyieithog i'r prif unedau yn hytrach na chyflwyno cyrsiau llawn cyfrwng Cymraeg, os nad oes cyfle newydd yn codi. Caiff hyn ei werthuso ar sail flynyddol.**

**Data Allweddol**

Cafodd y targedau isod ar gyfer dysgwyr CA3 eu seilio ar gyfraddau pontio Blaenau Gwent o B6 – B7 (CYBLD Ionawr 2021).

**Ffigur 23: Niferoedd cohort a phontio**

| | Cyfanswm cohort dysgwyr Blwyddyn 6 | Nifer dysgwyr Cymraeg yn pontio o CA2 i CA3 | % dysgwyr |
|---|---|---|---|
| **Medi 2022** | 764 | 38 | 5% |
| **Medi 2023** | 731 | 22 | 3% |
| **Medi 2024** | 789 | 26 | 3% |
| **Medi 2025** | 778 | 26 | 3% |
| **Medi 2026** | 728 | 38 | 5% |
| **Medi 2027** | 718 | 33 | 5% |
| **Medi 2028** | 683 | 30 | 4% |
| **Medi 2029** | (728) | 30 | 4% |
| **Medi 2030** | (728) | 54** | 7% |
| **Medi 2031** | (728) | 58 | 8% |
| **Medi 2032** | (728) | 60 | 8% |

** Cohort 1af o Dredegar i fynd i ddarpariaeth uwchradd

| **Blwyddyn 11** | **2032/33** | **2031/32** | **2030/31** | **2029/30** | **2028/29** | **2027/28** | **2026/27** | **2025/26** | **2024/25** | **2023/24** | **2022-23** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Maint Cohort** | 627 | 663 | 674 | 736 | 744 | 685 | 706 | 743 | 646 | 682 | 568 |
| **Cynigion Cohort wedi'i addasu (85.5%)** | 536 | 567 | 576 | 629 | 636 | 586 | 604 | 635 | 552 | 583 | 486 |

**Ffigur 24: Amcanestyniad nifer o ddysgwyr blwyddyn 11 yn astudio am gymwysterau Cymraeg fel pwnc (TGAU)**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ifer a % dysgwyr yn astudio am gymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 38 | 5% | 22 | 3% | 26 | 3% | 26 | 3% | 38 | 5% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 26 | 5% | 64 | 10% | 64 | 9% | 68 | 9% | 71 | 10% |
| Nifer a % o ddysgwyr yn astudio am gymwysterau Cymraeg (fel pwnc) yn TGAU | | | | | | | | | |
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 568 | 85% | 682 | 85% | 646 | 85% | 635 | 85% | 604 | 85% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 86 | 85% | 636 | 85% | 629 | 85% | 576 | 85% | 567 | 85% |
| Nifer dysgwyr yn astudio am gymwysterau Cymraeg (fel pwnc) neu bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngholeg Gwent (B1) | | | | | | | | | |
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 141 | | 300 | | 450 | | 600 | | 650 | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 700 | | 750 | | 800 | | 900 | | 1000 | |

## Deilliant 5

## Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio’r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

**Ble’r ydym ni arni yn awr?**

Mae Blaenau Gwent yn cydweithio gyda’r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) i arwain ar waith ‘Siarter Iaith’, siarter iaith cynradd ac uwchradd:

- Siarter Iaith Cynradd: 100% Arian (Ysgol Gymraeg Bro Helyg).
- Siarter Iaith Uwchradd: mae Ysgol Gyfun Gwynllyw yn gweithredu fframwaith y Siarter (Cam 1 o 5: Fframwaith gwerthuso Siarter EAS ar gyfer ysgolion uwchradd)
- Cymraeg Campus Cynradd Cyfrwng Saesneg: mae 35% o ysgolion Blaenau Gwent wedi cael dyfarniad Efydd, 20% wedi cael Arian a 45% yn gweithio at Efydd.

Yn unol â chynllun Ysgolion Cymraeg Campus ym Mlaenau Gwent:

- Mae 100% o’n hysgolion cynradd/campysau wedi cymryd rhan yn holiadur llinell sylfaen fframwaith Cymraeg Campus.
- Cafodd dyfarniad Efydd ei sicrhau a’i wirio mewn 35% neu 7 o’n hysgolion cynradd/campysau.

DRAFT

- Roedd 20% neu 4 o'n hysgolion cynradd/campysau wedi cymryd rhan yn y dyfarniad Arian ac atebwyd yr holiadur llinell sylfaen.
- Nid oes unrhyw ysgol wedi cyflawni ac wedi dilysu dyfarniad Arian.

**Blaenau Gwent: Dwyieithrwydd Uwchradd –** Mae Ysgol Sefydliadol Brynmawr, Ysgol Gyfun Tredegar a Chyfnod Uwchradd Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr yn datblygu cynlluniau dwyieithrwydd gyda chefnogaeth gan EAS. Yn ychwanegol mae'r ysgolion hyn yn cymryd rhan yn rhaglen Cymraeg Bob Dydd yr Urdd.

**Mudiad Meithrin**
Mae Cymraeg i Blant yn brosiect Mudiad Meithrin sy'n cefnogi darpar rieni a rhieni newydd i ddewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Swyddog Cymraeg i Blant yn gweithio 4 diwrnod yr wythnos, a gaiff eu rhannu rhwng Cynghorau Blaenau Gwent a Thorfaen, ac mae'n cynnal sesiynau cymorth wythnosol ar gyfer rhieni a baban ar draws y sir tebyg i:

- Arwyddo stori a chân
- Tylino a yoga i fabanod
- Cuppa & Chat Cymraeg (ar-lein)
- Sesiynau fi a fy maban ar gyfer darpar rieni a rhieni newydd ar fanteision bod yn ddwyieithog (ar-lein)

Mae Ffigur 28 yn rhoi trosolwg o'r grwpiau a gynhaliwyd ym Mlaenau Gwent, ynghyd â'r nifer o rieni a wnaeth eu mynychu. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys: Arwyddo stori a chân, tylino babanod a yoga babanod (Glynebwy, Tredegar, Aber-bîg, Blaenau). O 2020 ymlaen cafodd grwpiau ar-lein eu datblygu (yn cynnwys (Fi a Fy Maban, Cuppa & Chat Cymraeg, Tylino Baban, Arwyddo Stori a Chân.

**Ffigur 28: Trosolwg Data Grŵp**

| | Nifer Grwpiau | Nifer a Fynychodd |
|---|---|---|
| **2018-2019** | 65 | 332 |
| **2019-2020** | 124 | 750 |
| **2020-2021** | ** 214 ar-lein | 296 |

Mae'r Swyddog Cymraeg i Blant yn gweithio'n agos gyda'r timau Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd lleol, gan gyfeirio rhieni at y grwpiau a chadw cysylltiad rheolaidd gyda nhw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cyfleoedd lleol sydd ar gael i rieni newydd. Caiff gwybodaeth ei rhannu am fanteision dwyieithrwydd cynnar, sut i gael mynediad i adnoddau dwyieithog i'w defnyddio gartref ac ar-lein a chefnogaeth i gynyddu hyder rhieni a gofalwyr mewn defnyddio'r Gymraeg neu ei dysgu drwy gofrestru ar gwrs Clwb Cwtsh neu ar gyfer sesiynau ymarfer.

Mae **Clwb Cwtsh** yn raglen flasu wyth-wythnos yn canolbwyntio ar siarad Cymraeg gyda phlant ifanc. Fe'i hanelwyd at ddarpar rieni, rhieni/gofalwyr ac aelodau o'u teuluoedd estynedig. Nid yw'n rhaid medru siarad na deall unrhyw Gymraeg i ymuno. Caiff y prosiect ei reoli gan y Mudiad Meithrin.

**Clwb Cylch** Yn ystod y pandemig, lansiodd Mudiad Meithrin weithgaredd Cymraeg yn y cartref drwy ddarparu sesiynau agored dan faner 'Clwb Cylch' (#ClwbCylch) ar gyfer

DRAFT

plant oed meithrin a'u rhieni drwy lwyfannau digidol. Rhoddir pwyslais neilltuol ar blant o deuluoedd lle na chaiff y Gymraeg ei siarad gartref.

Mae rhaglen Sefydlu a Symud (SAS) Mudiad Meithrin yn anelu i sefydlu 40 Cylch Meithrin newydd gyda Cylch Ti a Fi erbyn 2021 mewn ardaloedd penodol o Gymru lle nad oes Cylch Meithrin ar hyn o bryd. Mae'r datblygiadau ym Mlaenau Gwent yn cynnwys:

- 1 Cylch Meithrin yn cael ei ddatblygu yn ardal Tredegar, gyda Ti a Fi eisoes wedi ei sefydlu yn yr ardal.
- 1 Feithrinfa Ddydd yn darparu sesiynau Cylch Meithrin dyddiol gyda chefnogaeth rhaglen Croesi'r Bont – gyda'r nod o gyflwyno methodoleg trochi yn y Gymraeg o fewn Cylchoedd Meithrin a sicrhau pontio ieithyddol o'r Cylch i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

**Deunydd Hyrwyddo**
Mae'r llenyddiaeth ddilynol ar gael drwy Mudiad Meithrin i gefnogi gyda gwybodaeth i rieni am ofal plant cyfrwng Cymraeg sy'n ateb cwestiynau cyffredin:

- Mae 'Baby Steps into Welsh' yn gyfres newydd o bodlediadau. Wedi'u cyflwyno gan Nia Parry, mae'r podlediadau yn rhoi cyfle i rieni adnabyddus i drafod a rhannu eu profiadau go iawn am addysg cyfrwng Cymraeg Podcast (meithrin.cymru)
- Sianel YouTube Mudiad Meithrin Mudiad Meithrin - YouTube
- Pamffledyn amlieithog mewn 8 iaith yn disgrifio opsiynau gofal plant taflen_amlieithog_cyflawn_9.9.19.pdf (meithrin.cymru)
- Pam dewis addysg cyfrwng Cymraeg (meithrin.cymru)
- Cwestiynau cyffredin ac atebion (meithrin.cymru)

**Menter Iaith**
Cyn y pandemig, roedd y Fenter Iaith yn darparu clwb ar ôl ysgol yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg, a ailagorodd ym mis Medi 2021. Mae Swyddog Datblygu Cymunedol gan y Fenter Iaith sy'n cefnogi cyflwyno gweithgareddau mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd.

Mae'r Fenter Iaith hefyd yn cynnal digwyddiadau a sesiynau rhithiol ar gyfer plant iau a theuluoedd. Cynhaliwyd 22 digwyddiad ym Mlaenau Gwent yn 2019/20, gyda dros 346 o blant a theuluoedd yn bresennol. Yn 2020/21 bu 2 ddigwyddiad teuluol a 55 digwyddiad ar-lein a gyflwynwyd yn ystod y cyfnodau clo, gyda thua 26 yn bresennol yn y digwyddiadau teuluol a 43 o blant yn cymryd rhan mewn digwyddiadau ar-lein.

**Gwasanaeth Ieuenctid**
Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Urdd i sicrhau a chyflwyno gweithgareddau Cymraeg ar gyfer pobl ifanc. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid ym Mlaenau Gwent yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Lle'n bosibl maent wedi cyflwyno'r Gymraeg mewn clybiau ieuenctid, gan sicrhau cyfleoedd ymgysylltu dwyieithog ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Mae'r Urdd, mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid, wedi parhau â'u prosiectau ar-lein yn ystod y pandemig, fodd bynnag bu'r niferoedd yn isel. Gan weithio wrth ochr yr Urdd, roedd darpariaeth a gweithgareddau ymgysylltu rhithiol (un yr wythnos), tebyg i gwisiau a gemau, ar gael ar gyfer pobl ifanc yn ystod cyfnod yr haf.

DRAFT

Fodd bynnag, cafodd cyfleoedd eu gostwng oherwydd cyfnodau ffyrlo. Daeth gwaith o fewn ysgolion i ben yn ystod y pandemig. Ailddechreuodd Clwb Cymraeg Ar ôl Ysgol Tredegar yn rhithiol ym mis Mawrth ac mae tua 8 o bobl ifanc yn mynychu'n rheolaidd. O fis Ebrill ymlaen, mae'r clwb wedi dychwelyd i ddarpariaeth wyneb i wyneb yn yr ysgol ac mae presenoldeb – yn arbennig ymysg bechgyn – wedi cynyddu.

Bu hefyd brosiect pontio ar gyfer Blwyddyn 6 ym Mro Helyg yn ystod mis Gorffennaf.

**Urdd Gobaith Cymru**
Mae Urdd Gobaith Cymru yn fudiad cenedlaethol gwirfoddol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n rhoi gwahanol gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chael profiadau yn yr iaith tu allan i'r ystafell ddosbarth ac yn eu cymunedau lleol. Mae'r Urdd yn cynnig y dilynol:

**Cymunedol**
- Swyddogion sy'n darparu cyfleoedd celfyddydau cymunedol drwy gydol y flwyddyn
- Adrannau, aelwydydd, clybiau ieuenctid a chlybiau cymunedol ar gyfer plant a phobl ifanc i fwynhau a defnyddio'r Gymraeg
- Darpariaeth ddigidol ar gyfer pob oed

**Chwaraeon**
- Clybiau cymunedol
- Cystadlaethau chwaraeon sirol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Gwyliau chwaraeon rhanbarthol a chenedlaethol
- Gweithgareddau digidol
- Darpariaeth addysg llythrennedd corfforol ar gyfer ysgolion

**Gwersylloedd yr Urdd**
- Llangrannog, Glan-llyn, Caerdydd a Phentre Ifan
- Profiadau preswyl yn rhoi profiadau dysgu, hwyl ac atgofion cadarnhaol o ddefnyddio'r Gymraeg

**Yr Eisteddfod a'r Celfyddydau**
- Eisteddfodau Cylch a Sir sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer ysgolion a disgyblion i brofi'r celfyddydau, datblygu hunanhyder a dysgu mwy am ddiwylliant a llenyddiaeth Cymru
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a bod yn rhan o ŵyl genedlaethol
- Celfyddydau digidol, cerddoriaeth, theatr, celf a darpariaeth cefn llwyfan

**Prentisiaethau cyfrwng Cymraeg**
- Dilyniant addysgol a chyflogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n dymuno cael cymwysterau a phrofiad yn y Gymraeg

**Rhyngwladol**
- Neges Heddwch ac Ewyllys Da – ymestyn llaw cyfeillgarwch a thrafod materion o bwys i bobl ifanc ar sail fyd-eang
- Prosiectau penodol gyda phartneriaid yn Iwerddon, America a Japan
- Cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli rhyngwladol ac ymweliadau cyfnewid

**Adnoddau**
- Cylchgronau digidol yr Urdd

- Casgliad o adnoddau ychwanegol i gefnogi'r Cwricwlwm newydd.

**Ffigur 27: Gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu ieuenctid drwy'r Urdd**

| 2018 - 2019 | Nifer plant oedran cynradd | Nifer plant oedran uwchradd | Cyfanswm | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|
| Tripiau preswyl | 60 | 40 | 100 | Canolfannau yr Urdd - Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd |
| Eisteddfod | 30 | 0 | 30 | Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Caerffili ac Ysgol Gyfun Gwynllyw |
| Clwb Cymraeg | 0 | 20 | 20 | Tredegar |
| Twrnameintiau chwaraeon | 30 | 25 | 55 | Gwahanol safleoedd ledled Gwent |
| Jambori | 50 | 0 | 50 | Pont-y-pŵl |
| Adran | 15 | 0 | 15 | Bro Helyg |
| **Cyfanswm** | **185** | **85** | **270** | |

**Coleg Gwent**
Mae Coleg Gwent yn darparu cyfleoedd ymgyfoethogi Cymraeg ar gyfer pob dysgwr. Yn unol â phartneriaeth Coleg Gwent gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, penodir 5 Llysgennad Cymraeg ar gyfer pob sesiwn academaidd. Eu rôl yw hyrwyddo annog a hwyluso darpariaeth Gymraeg ym mhob cwmpas, gan weithio gyda phartneriaid allweddol fel yr Urdd i wneud hynny.

Mae cyfranogiad ac ymgysylltu'n wahanol ym mhob campws ac ar draws adrannau. Fodd bynnag, mae tua 8-12 o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgaredd allgyrsiol cyfrwng Cymraeg. Yn ystod sesiwn academaidd 2020/21, cymerodd 142 o ddysgwyr ran mewn gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog. Cafodd y pandemig effaith negyddol ar lefelau cymryd rhan.

**Ble'r ydym ni'n anelu bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut ydym ni'n bwriadu cyrraedd yno?**

Gan weithio'n agos gyda EAS i barhau i hyrwyddo a datblygu'r Siarter Iaith ym mhob rhan o'r stad ysgolion, anelwn gyflawni'r targedau dilynol:

- **Targed Siarter Iaith Cynradd** Blaenau Gwent: 100% Aur (Bro Helyg)
- **Siarter Iaith Uwchradd** Torfaen: (Cam 4 o 5: Fframwaith gwerthuso siarter ar gyfer ysgolion uwchradd)

Targed Blaenau Gwent i gyflawni Efydd, Arian ac Aur.

**Ffigur 29: Cymraeg Campus Cynradd: Cynradd Cyfrwng Saesneg**

| | 2021 | | Targed 2026 | | Targed 2032 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg Campus Cynradd Cyflawnwyd neu'n gweithio at hynny | | | | | | |
| Cynradd : Efydd | 7/20 | 35% | 20/20 | 100% | 20/20 | 100% |
| Cynradd: Arian | 4/20 | 20% | 10/20 | 50% | 20/20 | 100% |
| Cynradd: Aur | 0/20 | 0% | 7/20 | 35% | 10/20 | 50% |

DRAFT

Mae'n fwriad gan Goleg Gwent i ehangu a datblygu darpariaeth cyfoethogi Cymraeg, gan sefydlu cymuned Gymraeg fywiog, amrywiol a chynhwysol. Gan barhau i addasu i anghenion dysgwyr, disgwylir y bydd lefelau cyfranogiad dysgwyr ar gyfer gweithgareddau Cymraeg yn cynyddu i 70% dros y 5 mlynedd nesaf.

Wrth gyflawni ei nodau, byddwn yn:

- Gweithio gyda EAS i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr uwch, yn cynnwys ffocws ar ddatblygiad strategol Cymraeg Campus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Datblygu rhwydweithiau ar gyfer cydlynwyr (ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg) a chyfarfodydd galw heibio bob hanner tymor.
- Cynnig cefnogaeth bwrpasol arall ar gyfer ysgolion yn unol â dull Gwella Ysgolon Rhanbarthol.
- Cefnogi ysgolion i ystyried datblygiad Cymraeg Campus fel rhan o'u hunan-werthusiad ehangach, gyda'r diwethaf yn sail i'r broses ddilysu.
- Codi proffil a hyrwyddo Siarter Iaith a Cymraeg Campus.
- Hyrwyddo gweithio clwstwr effeithlon a dathlu llwyddiannau ar lefel ysgol, clwstwr, lleol a rhanbarthol.
- Sicrhau fod cyfleoedd digonol i ysgolion rannu arfer da, a datblygu cynlluniau gweithio ysgol i ysgol, gan sicrhau mwy o ymgysylltu.
- Hyrwyddo gwaith a chreu cyfleoedd i ddysgwyr a theuluoedd ymgysylltu gyda Mudiad Meithrin, Gwasanaethau Ieuenctid Blaenau Gwent, Urdd Gobaith Cymru a'r Fenter Iaith.
- Datblygu holiadur llinell sylfaen i'w llenwi gan ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg am ganfyddiad a hyder defnyddwyr mewn defnyddio'r Gymraeg fel ail iaith. Defnyddio'r data hwn i dargedu datblygu cyfleoedd, gan barhau i fesur hyder a chynnydd.
- Gweithio gyda'r arweinydd Siarter y Gymraeg ym Mlaenau Gwent i gefnogi ymgysylltu gan gasglu sylwadau drwy gyfres o holiaduron ansoddol, a ddefnyddir i benderfynu tueddiadau ieithyddol, rhwystrau a chyfleoedd.
- Parhau a chryfhau'r Fforwm Addysg Gymraeg, gan gefnogi'r weledigaeth i dyfu'r Gymraeg a chyfleoedd cysylltiedig.
- Adolygu strwythur ac aelodaeth y Fforwm Addysg Gymraeg, yn cynnwys is-grwpiau ac arweinwyr thema deilliant, i sicrhau y caiff y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10-mlynedd ei fonitro a'i weithredu'n effeithlon.
- Cydweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau adnoddau i ddatblygu cyfleoedd allgyrsiol ymhellach ar gyfer dysgwyr Blaenau Gwent.
- Datblygu cynllun cyfathrebu effeithlon i sicrhau fod dysgwyr a rhieni yn gwybod am ac yn ymgysylltu gyda chyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.
- Cefnogi dilyniant iaith mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
- Rhoi sylw i bwysigrwydd cyfleoedd preswyl yr Urdd sy'n cynnig profiadau 24 awr hollol Gymraeg, gan greu atgofion cadarnhaol a hirdymor o'r Gymraeg ymysg disgyblion.
- Cynyddu cyfranogiad ysgolion yn Eisteddfod yr Urdd i feithrin hunanhyder, profi'r celfyddydau a dealltwriaeth o lenyddiaeth, cerddoriaeth a chelf Cymru; a
- Sicrhau cyd-gynllunio effeithlon ar gyfer gwaith ieuenctid (11-25 oed) drwy gyfrwng y Gymraeg.

DRAFT

**Ble ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng-mlynedd?**

Cymraeg Campus Cynradd: Y targedau ar gyfer ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ar gyfer 2032 yw:

- 50% aur
- 100% arian
- 100% efydd

Ar ddiwedd yr adolygiad 5-mlynedd, bydd gan ysgolion Cymraeg a enillodd ddyfarniad aur hyder llawn i hunanarfarnu eu darpariaeth yn gadarn ar gyfer gweithredu'r Siarter Iaith a byddant yn gyfrifol am rannu eu harfer da wrth ddatblygu'r Siarter yn annibynnol gydag eraill.

Bydd pob ysgol a sefydlwyd rhwng yr adolygiad 5-mlynedd a diwedd y cylch 10-mlynedd yn gweithredu'r Siarter Iaith ac yn anelu i ennill dyfarniad sy'n adlewyrchu cynnydd priodol yn ôl dyddiad sefydlu yr ysgol.

Ar gyfer Cymraeg Campus, rhaid cynnal disgwyliadau dyfarniad aur a safonau uchel mewn ysgolion a enillodd y dyfarniad, yn cynnwys sicrhau proses effeithlon i werthuso, monitro a chynllunio ar gyfer cynnal neu wella safonau. I sicrhau fod hyn yn digwydd, bydd rhannu helaeth ar arfer da rhwng ac ar draws ysgolion, gydag ysgolion yn rhoi cefnogaeth annibynnol i'w gilydd wrth werthuso cyflwyno'r rhaglen. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda EAS i sicrhau fod prosesau monitro systematig ac effeithlon yn eu lle, i sicrhau y cedwir safonau uchel.

Dros y 10 mlynedd nesaf, amcan Coleg Gwent yw thyfu ac ehangu darpariaeth cyfoethogi yn y Gymraeg, gan ymdrechu at ddyblu y nifer sy'n cymryd rhan erbyn 2032, sy'n gyfwerth â 284 dysgwr neu 90%.

Yn olaf, anelwn gynyddu gweithgareddau allgyrsiol ac ymgysylltu cysylltiedig drwy ddull gweithredu partneriaeth effeithlon a gaiff ei lywio a'i fonitro gan waith y Fforwm Addysg Gymraeg.

**Data Allweddol**

| Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 – 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 0 | 0% | 2 | 10% | 4 | 20% | 6 | 30% | 7 | 35% |
| 2027 – 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 8 | 40% | 9 | 45% | 9 | 45% | 10 | 50% | 10 | 50% |

DRAFT

# Deilliant 6

## Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”), yn unol â’r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Bryses Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

### Ble’r ydym arni yn awr?

Nid oes gan Flaenau Gwent Ganolfan Adnoddau Anghenion Arbennig ar hyn o bryd ar gyfer plant gydag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Felly, mae rhieni a gofalwyr disgyblion gyda ADY yn cael mynediad i Ganolfan ar gyfer eu plant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, oherwydd nad oes darpariaeth ar gael o fewn yr ysgol gynradd Gymraeg. Felly y ‘canfyddiad’ yw fod y galw am ddarpariaeth o’r fath yn isel. Fel yn 2021, dim ond un disgybl oedd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Fodd bynnag, mae’r ysgol wedi dynodi cohort o ddisgyblion sydd naill ai’n disgwyl am ddiagnosis neu wedi cael diagnosis a fyddai’n manteisio o ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig. Mae Ffigur 30 yn rhoi manylion proffil disgyblion ADY Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Mae angen mwy o waith i ddadansoddi a deall lefel a chymhlethdod angen o fewn y sector cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent.

**Ffigur 30: Proffil disgyblion ADY yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg**

| | Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig | Anhwylder Ymddygiad Emosiynol Cymdeith-asol | Dyslecsia | Oedi Datblygiadol Cyffredinol | Nam ar y Clyw | Anawsterau Lleferydd Dysgu a Chyfathrebu | Nam ar y Golwg | Anawsterau Dysgu Cymedrol | Cyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2017** | 1 | 5 | 8 | 6 | 1 | 11 | 1 | 1 | **34** |
| **2018** | | 6 | 2 | 11 | 3 | 12 | 1 | 1 | **36** |
| **2019** | | 5 | 2 | 8 | 2 | 9 | 1 | 1 | **28** |
| **2020** | | 5 | | 5 | 2 | 5 | 1 | | **18** |
| **2021** | | 10 | 1 | 5 | 1 | 4 | 1 | | **22** |

Ar hyn o bryd, mae 8 disgybl gyda nodweddion ASD/ADHD yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Hyd yma, nid yw’r cyfan o’r disgyblion a nodwyd wedi cael diagnosis ffurfiol, fodd bynnag mae pob un heblaw 2 yn derbyn cyswllt gyda Seicolegydd Addysgol gydag atgyfeiriadau wedi eu gwneud. Cynigir darpariaeth feithrin yn yr ysgol ar sail lawn-amser, felly mae anghenion disgyblion yn tueddu i gael eu hadnabod yn weddol gynnar. Ar hyn o bryd, yng Nghyfnod Allweddol 2, mae nifer o ddisgyblion a fyddai’n manteisio o addysgu dosbarth bach. Sylweddolir hefyd y byddai darparu canolfan adnoddau yn rhoi cefnogaeth bwrpasol ar gyfer y disgyblion y dynodwyd eu bod angen y lefel gyson yma o ymyriad a chymorth a hefyd yn rhyddhau amser athrawon i ganolbwyntio ar ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol e.e. disgyblion gydag Anhawster Dysgu Penodol. Fel ym mis Medi 2021, roedd Ysgol Gymraeg Bro Helyg wedi rhyddhau’r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig rhag addysgu am 4 diwrnod yr wythnos er mwyn canolbwyntio ar ymyriadau gyda disgyblion.

Ar hyn o bryd mae gan Flaenau Gwent 3 aelod o staff yn y tîm Seicoleg Addysg sy'n rhugl yn eu Cymraeg. Fodd bynnag, mae un ohonynt ar secondiad i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Sefydlwyd gweithgor traws-consortia gyda golwg ar ddatblygu offer ac adnoddau ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Fel ysgol arbennig, mae gan Pen y Cwm 6 aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg. Defnyddir gwahanol lefelau o Gymraeg yn dibynnu ar anghenion y dysgwyr gyda Chymraeg yn bennaf yn cael ei defnyddio'n achlysurol. Yn ychwanegol, mae gan yr ysgol Gydlynydd y Gymraeg ac maent yn cydnabod a gwobrwyo siaradwr Cymraeg yr wythnos.

**Ble'r ydym ni'n anelu bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut ydym ni'n bwriadu cyrraedd yno?**

Mae prosiect ailfodelu Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn Brosiect Band B Ysgolion y 21ain Ganrif gyda'r amcanion dilynol:

- sicrhau twf y boblogaeth disgyblion;
- mynd i'r afael â bylchau presennol mewn darpariaeth h.y. ni all yr ysgol gynnig dysgu awyr agored ac nid oes ganddi ofodau addas i gefnogi disgyblion gydag anghenion ymddygiad ac anghenion dysgu ychwanegol – sy'n ffurfio cyfran sylweddol o'r boblogaeth disgyblion;
- trawsnewid gofodau na fedrir eu defnyddio sydd â'u cyflwr yn gwaethygu ac sy'n anaddas i'w defnyddio yn unol â Iechyd a Diogelwch;
- creu hyblygrwydd i gefnogi twf;
- sicrhau gwell safonau addysgu a dysgu, ynghyd â gwella deilliannau disgyblion; a
- sicrhau gwell addasrwydd yn unol â'r cwricwlwm newydd, ynghyd â chyflwr y cyfleuster.

Mae Cyngor Blaenau Gwent yn ymroddedig i ddatblygu Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Byddai'r Ganolfan honno yn darparu ar gyfer hyd at 10 disgybl ADY i ddechrau, gyda'r capasiti i dyfu i ddarpariaeth cyfnod hollt.

Wrth gyflawni ein nodau, byddwn yn:

- Archwilio anghenion ADY drwy gydol y sector cyfrwng Cymraeg ac adolygu'n flynyddol, er mwyn llywio a datblygu pontio a darpariaeth effeithlon ar gyfer dysgwyr;
- Sicrhau y gall dyletswydd statudol ysgol(ion) i sicrhau y gellir cynnig darpariaeth ADY yn ddwyieithog, drwy ymrwymo i ddatblygiad a recriwtio ymarferwyr yn y Gymraeg;
- Sicrhau bod y lefel iawn o gymorth ar gael ledled y sectorau blynyddoedd cynnar a chynradd cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau fod gan ddarpariaethau y cyfleusterau a'r adnoddau sydd eu hangen i roi cefnogaeth effeithlon i ddysgwyr sydd ag ADY;
- Adolygu'r ymchwil a gynhelir drwy'r consortia, a'i ddefnyddio i ddatblygu cynllun hyfforddiant ac ymyrryd ar gyfer staff a disgyblion;

DRAFT

| |
|---|
| • Adolygu, addasu a defnyddio adnoddau a gafodd eu teilwra i anghenion penodol dysgwyr, gan ymgysylltu gyda a deall arfer gorau h.y. dulliau asesu Gogledd Cymru tebyg i beiriannau darllen ar gyfer dysgwyr gydag Anawsterau Dysgu Penodol;<br>• Sicrhau fod prosesau adnabyddiaeth gynnar yn eu lle, drwy sicrhau dull partneriaeth effeithlon, gan lywio a datblygu darpariaeth ar gyfer disgyblion ADY cyn ysgol statudol;<br>• Gweithio gyda'r tîm Cynhwysiant i gefnogi gweithredu Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Cymru (2021);<br>• Sicrhau'r gallu i ymgysylltu gyda rhieni yn eu dewis iaith;<br>• Gweithio gyda'r Gwasanaethau Cynhwysiant i weithredu a monitro Cynlluniau Datblygu Unigol yn effeithlon ar gyfer pob disgybl 0-25 oed gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol; a<br>• Sicrhau aliniad effeithlon gyda'r Strategaeth Hyrwyddo ac Ymgysylltu i hysbysu rhieni am y cymorth sydd ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol ym mhob rhan o'r sector uwchradd. |
| **Ble'r ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?** |
| • Cydweithio rhanbarthol i barhau i gefnogi'r galw am addysg drochi ac addysg cyfrwng Cymraeg.<br>• Sicrhau fod y Gwasanaeth Cynhwysiant yn parhau i gynnig ystod eang o wasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y sector cynradd.<br>• Parhau i gefnogi ysgolion gyda datblygu darpariaeth yn y Gymraeg a chydweithio mwy gyda nhw i gyflawni ar a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol.<br>• Cynnal adolygiad llawn ar gyfer Canolfannau Adnoddau Anghenion Addysgol Arbennig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg..<br>• Sicrhau y caiff darpariaeth ar gyfer dysgwyr ADY ei weithredu'n effeithlon, gan sicrhau twf a datblygiad. |

| **Deilliant 7**<br>**Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg** |
|---|
| **Ble ydyn ni arni yn awr?** |
| **Capasiti/Sgiliau Iaith y Gweithlu Addysg (Ysgolion) (Llinell sylfaen 2019 SWAC)**<br>Mae bron holl ysgolion Blaenau Gwent yn ysgolion cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd. Mae staff gyda'r lefelau uchaf o hyfedredd yn gweithio yn y sector cyfrwng Cymraeg gydag angen datblygiad sylweddol ar sgiliau Cymraeg y staff yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg yn nodi nad oes ganddynt ddim sgiliau lefel mynediad na sylfaen yn y Gymraeg. Ychydig iawn sy'n nodi fod ganddynt sgiliau iaith uwch neu â hyfedredd<br>**Ysgolion Cynradd Cyfrwng Saesneg** |

DRAFT

**Ffigur 33: Trosolwg o lefelau sgiliau Cymraeg staff mewn addysg cyfrwng Saesneg.**

| Dim Sgiliau | Lefel Mynediad | Lefel Sylfaen | Lefel Canolradd | Lefel Uwch | Lefel Hyfedredd | Ni chafwyd yr wybodaeth hon | Cyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 104 | 98 | 6 | 4 | 4 | 0 | 217 |
| 0.5% | 48% | 45% | 3% | 2% | 2% | 0.0% | |

## Ysgolion Cynradd Cyfrwng Saesneg

**Ffigur 35: Trosolwg lefelau sgiliau Cymraeg staff addysg cyfrwng Saesneg**

| Dim Sgiliau | Lefel Mynediad | Lefel Sylfaen | Lefel Canolradd | Lefel Uwch | Lefel Hyfedredd | Ni chafwyd yr wybodaeth hon | Cyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 52 | 15 | 6 | 2 | 0 | 7 | 0 | 82 |
| 63% | 18% | 7% | 2% | 0% | 8% | 0% | |

## Gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Ychydig iawn o staff sy'n gweithio yn ysgolion cynradd neu uwchradd cyfrwng Saesneg a all ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Cynradd

**Ffigur 36: Nifer staff a all addysgu neu weithio drwy gyfrwng y Gymraeg**

| Addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | | |
|---|---|---|
| Gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | Cyfanswm | Gallu addysg/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg |
| 27 | 228 | 12% |

### Uwchradd

**Ffigur 37: Nifer staff a all addysgu neu weithio drwy gyfrwng y Gymraeg**

| Addysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg | | |
|---|---|---|
| Gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | Cyfanswm | Gallu addysg/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg |
| 3 | 82 | 4% |

Rôl yr EAS wrth gyflwyno a hyrwyddo dysgu proffesiynol ar gyfer y Gymraeg yw:

- Gweithio gydag arweinwyr ysgolion, arweinwyr dysgu proffesiynol clwstwr ar gyfer y Gymraeg a chydlynwyr y Gymraeg i gefnogi asesiad cywir o anghenion y Gymraeg yn unol â Fframwaith Cymhwysedd yn y Gymraeg a dynodi anghenion hyfforddiant ar lefel clwstwr ac ysgolion.
- Cyfeirio ysgolion at amrywiaeth o opsiynau hyfforddiant rhanbarthol, ar-lein a Chymraeg i Oedolion i gefnogi datblygu'r Gymraeg.
- Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddynodi anghenion hyfforddiant Sabothol.
- Cyflwyno hyfforddiant iaith, yn arbennig i'r sector cyfrwng Saesneg i gefnogi eu gallu i gyflwyno'r Gymraeg ar hyd y continiwwm Cymraeg.
- Darparu dysgu proffesiynol ar y dulliau addysgol a methodolegol o addysgu Cymraeg i gefnogi caffael a throchi yn y Gymraeg.

- Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i ddatblygu a rhannu adnoddau a chynllunio i gefnogi cyflwyno'r Gymraeg.
- Darparu cyfleoedd rhwydweithio i gefnogi cyflenwi negeseuon allweddol a galluogi rhannu arfer gorau i gyflwyno a datblygu'r Gymraeg.

**Data Galw am y Cynllun Sabothol Cymraeg**

**Ffigur 38: Ysgolion a gymerodd ran yn y Cynllun Sabothol (2018 -2021)**

| Blwyddyn | Math Cwrs | Ysgol |
|---|---|---|
| 2018-19 | Cymraeg mewn Blwyddyn | Ysgol Gynradd Cwm |
| 2018-19 | Cymraeg mewn Blwyddyn | Ysgol Gynradd Blaen y Cwm |
| 2019-20 | Cymraeg mewn Blwyddyn | Ysgol Gynradd Deighton |
| 2020-21 | Cymraeg mewn Blwyddyn | Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Santes Fair |
| 2020-21 | Cymraeg mewn Blwyddyn | Cymuned Ddysgu Abertyleri |

Mae EAS yn cefnogi graddedigion Cymraeg mewn Blwyddyn i weithredu prosiectau lefel ysgol a chlwstwr yn cynnwys datblygu deunyddiau enghreifftiol a dulliau i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, gan alluogi ymarferwyr i gynnal eu sgiliau iaith a datblygu eu harbenigedd.

**Staff EAS**

Mae gan EAS dîm Cymraeg rhanbarthol neilltuol yn cynnwys:
- Arweinydd Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Partner Cwricwlwm Cymraeg a Llythrennedd (iaith 1af)
- Partner Cwricwlwm Cymraeg mewn Ysgolion Cyfrwng Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol
- Partner Cwricwlwm Cyswllt, Cymraeg mewn Ysgolion Cyfrwng Saesneg (Uwchradd)
- Partneriaid Cwricwlwm Cyswllt Cymraeg mewn Ysgolion Cyfrwng Saesneg (Cynradd)

Mae EAS yn darparu cefnogaeth Cynghorydd Her Cyfrwng Cymraeg neilltuol i ysgolion ac yn tynnu penaethiaid ysgol i mewn o bob rhan o EAS ac ar draws rhanbarthau i sicrhau arbenigedd yn y Gymraeg ar lefel gynradd ac uwchradd. Daw cefnogaeth ysgol i ysgol ar gyfer y sector cyfrwng Saesneg o arfer gorau o fewn ac ar draws rhanbarthau. Mae unigolion o fewn y sefydliad sydd â sgiliau yn y Gymraeg, yn cynnwys o fewn y tîm Dysgu Proffesiynol, fodd bynnag sylweddolir fod angen cefnogi'r gweithlu ehangach i ddatblygu eu sgiliau iaith. Dros y 5 mlynedd nesaf, mae EAS yn bwriadu datblygu ac ymwreiddio dysgu proffesiynol ar gyfer y Gymraeg (anffurfiol a ffurfiol fel sy'n addas) fel rhan o hawl dysgu proffesiynol staff EAS.

**Coleg Gwent Darpariaeth Ôl 16:**

**Ffigur 42: Sgiliau yn y Gymraeg staff academaidd Coleg Gwent (Mehefin 2021)**

| Rhugl | Uwch | Canolradd | Dim |
|---|---|---|---|
| 6 (1%) | 14 (2%) | 23 (4%) | 553 (93%) |

Mae nifer y staff gyda sgiliau yn y Gymraeg ar lefel lle gallant gyflwyno'r cwricwlwm yn hyderus yn y Gymraeg ymhell dan y lefelau rydym eu hangen i ehangu'n sylweddol ein cynnig cwricwlwm cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae problemau hanesyddol a

| |
|---|
| pharhaus o amgylch recriwtio darlithwyr sy'n siarad Cymraeg gydag arbenigedd pwnc rhanbarthol hefyd yn broblem o fewn rhanbarth Consortiwm De Ddwyrain Cymru. Cafodd y Coleg beth llwyddiant yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn cynyddu sgiliau Cymraeg sylfaenol staff, hyd at lefel ganolradd (drwy Cymraeg Gwaith a darpariaeth arall Cymraeg i Oedolion), ond ni fydd y dull organig hwn ar ben ei hun yn cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r cynnig cwricwlwm yn y tymor canol i'r tymor hir. |
| **Ble'r ydym ni'n anelu bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut ydym ni'n bwriadu cyrraedd yno?** |
| **Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar**<br>Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn cynnwys RhAG a Mudiad Meithrin i ddatblygu dadansoddiad sgiliau ar gyfer staff o fewn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant er mwyn cynllunio a llywio sut y gall y sector gyfrannu at y targed drosfwaol. Caiff cyfleoedd hyfforddiant a datblygu eu hyrwyddo o fewn y sector i gynyddu a datblygu sgiliau yn y Gymraeg.<br><br>**Staff Addysgu ac Addysg Arbenigol**<br>O fewn 5 mlynedd cyntaf ein cynllun, anelwn weithio gyda phartneriaid allweddol er mwyn cynnal dadansoddiad o anghenion gweithlu, i sicrhau y gallwn fapio, hyfforddi a recriwtio staff yn effeithlon i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun hwn.<br><br>Anelwn sicrhau fod gan ein hysgolion a darpariaeth cyfrwng Cymraeg staff priodol, gydag athrawon gyda chymwysterau addas yn medru cyflenwi i safon uchel. Yn ychwanegol, anelwn hyrwyddo a datblygu cyfleoedd i'r gweithlu addysg wella a datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.<br><br>Mae'r gweithlu addysg yn newid yn barhaol ac felly byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol yn cynnwys EAS i barhau i ddarparu a chyfeirio ysgolion at amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gefnogi staff i gynnal a datblygu sgiliau. Byddwn yn parhau i recriwtio i'r Cynllun Sabothol, gan ddefnyddio data SWAC i gefnogi ysgolion/clystyrau er mwyn dynodi anghenion hyfforddiant ac ymarferwyr a fyddai'n cael budd o'r rhaglenni ac arwain ar y Gymraeg yn dilyn eu secondiadau. Dros y 5 mlynedd nesaf, bydd EAS yn datblygu ac ymwreiddio dysgu proffesiynol ar gyfer y Gymraeg (anffurfiol a ffurfiol fel sy'n briodol) fel rhan o hawl dysgu proffesiynol staff EAS. Bod staff yn sicrhau cynnydd yn eu gallu i siarad Cymraeg yn eu swyddi.<br><br>Byddwn yn cefnogi ysgolion a chlystyrau i dyfu a manteisio i'r eithaf ar yr arbenigedd iaith o fewn y system addysg, yn cynnwys cefnogaeth Graddedigion Sabothol fydd wedi dilyn rhaglen Cymraeg mewn Blwyddyn.<br><br>Cafodd hefyd raglen 2021/22 ei lansio yng nghyswllt y rhaglen ôl-radd Addysg Gychwynnol Athrawon gan eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru.<br><br>Yn unol â'r strategaeth Hyrwyddo ac Ymgysylltu, byddwn yn ymchwilio datblygiad adnoddau i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth yn y sector addysg. |

DRAFT

Byddwn yn datblygu rhaglenni hyfforddiant ac ymgysylltu Llywodraethwyr er mwyn cefnogi codi ymwybyddiaeth a rhannu atebolrwydd wrth lwyddo i gyflawni'r weledigaeth, nodau a thargedau a sefydlwyd a gyflwynir o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, tra hefyd yn sicrhau prosesau hyfforddiant a recriwtio effeithlon.

**Coleg Gwent**
Yn y 5 mlynedd gyntaf, bydd targedau yn gynnydd o 50% yn nifer y staff academaidd gyda sgiliau rhugl yn y Gymraeg a chynnydd o 50% yn nifer y staff academaidd gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg. Y targedau hyn yw:

| | Rhugl | Uwch |
|---|---|---|
| Targed 5 mlynedd: | 9 | 21 |

Bydd y cynnydd hwn yn galluogi'r Cyngor i ehangu ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog presennol i feysydd cwricwlwm cyfrwng Cymraeg arall blaenoriaeth (fel a osodwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol).

Bydd y coleg yn canolbwyntio ar y meysydd dilynol er mwyn hwyluso'r cynnydd:
- Parhau i gyflwyno rhaglen Cymraeg Gwaith yng Ngholeg Gwent gyda'r brif nod o gynyddu sgiliau staff lefel Canolradd i lefel Uwch.
- Cymryd rhan yng nghynllun mentora Sgiliaith er mwyn cefnogi staff gyda chyflwyno cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;
- Ceisio cyfleoedd i gymell a denu staff sy'n siarad Cymraeg o bob rhan o'r wlad; ac
- Edrych ar opsiynau i lacio gofynion TAR mewn rhai sefyllfaoedd er mwyn denu mwy o ymgeiswyr. Caiff yr unigolion hyn eu noddi i gwblhau ein TAR mewnol yn ystod eu 2 flynedd gyntaf o gyflogaeth.

**Ble'r ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Dros y 10 mlynedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda EAS i ddatblygu a sefydlu dysgu proffesiynol y Gymraeg (anffurfiol a ffurfiol fel sy'n briodol) fel rhan o hawl dysgu proffesiynol EAS.

Mae gan Blaenau Gwent fwy o weithlu addysg sy'n gallu addysgu a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, tra hefyd yn cynyddu nifer y staff a all addysgu Cymraeg fel pwnc.

Mae gan Flaenau Gwent gynllun datblygu gweithlu wedi'i sefydlu, sy'n galluogi'r Cyngor a'i bartneriaid i sicrhau staff addysgu a staff ysgol arbenigol arall i gyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, er mwyn cyflawni targed Blaenau Gwent ar gyfer disgyblion Blwyddyn 1.

Erbyn diwedd y cynllun 10-mlynedd, bydd Coleg Gwent yn anelu i sicrhau cynnydd o 100% yn nifer y staff academaidd sy'n rhugl ac uwch yn y Gymraeg (o'r lefelau presennol ym Mehefin 2021). Y targedau 10 mlynedd yw:

| | Rhugl | Uwch |
|---|---|---|
| Targed 10 mlynedd | 12 | 28 |

DRAFT

Bydd y cynnydd hwn yn galluogi'r Cyngor i ehangu ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog presennol i feysydd cwricwlwm cyfrwng Cymraeg blaenoriaeth arall (fel a nodwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol).

- Gofal Plant
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Chwaraeon
- Lletygarwch a Thwristiaeth
- Seiliedig ar y tir
- Busnes, Technoleg Gwybodaeth a'r Cyfryngau

Caiff y camau gweithredu a ddynodwyd er mwyn cyflawni'r targedau 5 mlynedd eu hymestyn i'r ail gyfnod i gefnogi cynnydd ar dargedau 10-mlynedd Llywodraeth Cymru.

Mae'n hollbwysig cynyddu nifer y staff a all gyflwyno yn Gymraeg os ydym i gyrraedd ein targedau uchelgeisiol ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y coleg.

## Sut fyddwn ni'n gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth?

Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent fydd y sbardun strategol tu ôl i'r Cynllun Cymraeg mewn Addysg 10-mlynedd. Diben y Fforwm yw cyfrannu at gynllunio strategol, monitro a gwerthuso Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Blaenau Gwent). Bydd y Fforwm yn cwrdd bob tymor, gyda is-grwpiau penodol o fewn ac o amgylch cyfarfodydd, yn canolbwyntio ar themâu penodol.

Mae'r Fforwm yn rhoi sianel ffurfiol o gyfathrebu rhwng partneriaid allweddol a rhanddeiliaid sy'n cydweithio tuag at gyflawni'r weledigaeth, nodau, amcanion, blaenoriaethau strategol a thargedau a nodir o fewn y cynllun.

Mae'r Fforwm yn gweithredu fel grŵp ymgynghori, gan gyfrannu at ddatblygu, monitro a gweithredu'r Cynllun drwy:

- gyfrannu at ddatblygu a monitro'r Cynllun;
- monitro'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, ynghyd â'r nifer sy'n derbyn hefyd y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan benderfynu blaenoriaethau strategol allweddol fel grŵp; a
- chefnogi datblygiad adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru yn disgrifio cynnydd yn nhermau gweithredu targedau'r Cynllun ar yr amserlen gymeradwy.

Yn ychwanegol, aiff adroddiadau cynnydd ar y Cynllun drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor yn flynyddol. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hefyd yn ffocws allweddol ym Mwrdd Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif a'r Fforwm Derbyn, gyda diweddariadau'n cael eu rhoi.

DRAFT

| Aelodaeth y Fforwm Addysg Gymraeg |
|---|
| Aelod Gweithredol dros Addysg |
| Trawsnewid Addysg a Gwasanaethau Newid Busnes CBSBG |
| Coleg Gwent |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) |
| Tîm Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae CBSBG |
| Ysgol Gyfun Gwynllyw |
| Gwasanaeth Cyflawni Addysg |
| Gwasanaethau Gwella Ysgolion a Chynhwysiant CBSBG |
| Gwasanaeth Ieuenctid CBSBG |
| Pennaeth - Ysgol Gymraeg Bro Helyg |
| Datblygu Sefydliadol CBSBG |
| Mudiad Meithrin |
| Tîm Polisi a Phartneriaeth CBSBG |
| Tîm Cludiant CBSBG |
| Menter Iaith |
| Urdd Gobaith Cymru |
| Adran y Gymraeg – Llywodraeth Cymru |
| Cyfathrebu Corfforaethol CBSBG |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Pennaeth ysgol cyfrwng Saesneg |

## Gwybodaeth ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori statudol yn rhedeg o ddydd Gwener 5 Hydref 2021 am 8 wythnos, gan ddod i ben Dydd Llun 3 Ionawr 2022. Gofynnir i chi sicrhau eich bod yn rhoi eich adborth ac ymatebion cyn cau'r ymgynghoriad.
Mae copi o'r drafft Gynllun Cymraeg mewn Addysg ar gael i'w lawrlwytho ar waelod y dudalen hon.
Gallwch roi eich sylwadau ar y drafft Gynllun drwy naill ai lenwi'r holiadur (dolen islaw) neu drwy gysylltu â ni drwy un o'r dilynol:

Arolwg: https://online1.snapsurveys.com/179rj
E-bost: 21centuryschool@blaenau-gwent.gov.uk
Post: Ysgolion yr 21ain Ganrif, Adran Addysg, Llys Einion, Abertyleri, Blaenau Gwent, NP13 3DB

Mae'n rhaid gorffen pob ffurf o gyfathrebu a/neu holiaduron erbyn dydd Dydd Llun 3 Ionawr 2022 yn hanner dydd.

Beth sy'n digwydd nesaf?
Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd pob ymateb a dderbynnir yn sail i unrhyw ddiweddariad a/neu newid sydd angen eu gwneud i'r cynllun. Ym mis Ionawr 2022 aiff y cynllun i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor cyn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ei ystyried a'i gymeradwyo erbyn 31 Ionawr 2022.

Yn dilyn cyflwyno'r cynllun, gall Gweinidogion Cymru:

- gyflwyno'r cynllun fel y'i cyflwynwyd,

- cymeradwyo'r cynllun gydag addasiadau, neu
- wrthod y cynllun a pharatoi cynllun arall a gaiff wedyn ei drin fel cynllun cymeradwy yr awdurdod.

Bydd y cynllun a gymeradwyir yn rhedeg o fis Medi 2022 hyd fis Awst 2032.

Ar gyfer ymholiadau anfonwch e-bost i 21centuryschools@blaenau-gwent.gov.uk neu ffonio 01495 357704

DRAFFT